



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Adroddiad Blynyddol 2020-2021





COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Adroddiad Blynyddol 2020-2021

Cynnwys

1.	Rhagair	3
2.	Rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.....	4
3.	Blaenoriaethau Cynllun Heddlu a Throseddu 2017-2021	5
4.	Gweithio i Gyflawni'r Blaenoriaethau.....	6
	Blaenoriaeth 1 – Cadw Ein Cymunedau'n Ddiogel	6
	Blaenoriaeth 2 – Diogelu'r Rhai sy'n Agored i Niwed	12
	Blaenoriaeth 3 – Amddiffyn ein Cymunedau rhag Bygythiadau Difrifol	17
	Blaenoriaeth 4 – Cysylltu â Chymunedau.....	20
5.	Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.....	33
6.	Llywodraethu a Chraffu	35
7.	Cydweithio	42
8.	Ystadau	43
9.	Gwario Arian yn Ddoeth	44



1. Rhagair

Croeso i Adroddiad Blynyddol 2020–2021, sy'n edrych yn ôl ar fy mhumed flwyddyn fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu: blwyddyn ychwanegol annisgwyl yn fy nhymor cyntaf fel Comisiynydd.

Yn dilyn pandemig COVID-19 a gorfod gohirio Etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu 2020 yn sgil hynny, cafodd y rhaglen waith ar gyfer fy Swyddfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2020–2021 ei newid yn sylweddol.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn edrych yn ôl ar y gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2020-2021 mewn ymateb i flaenoriaethau fy **Nghynllun Heddlu a Throseddu**, sut bu i'm Swyddfa addasu dulliau gweithio dyddiol yn ystod y pandemig, a pharhau i gyflawni swyddogaethau statudol Comisiynydd Heddlu a Throseddu.



I mi, dyma lwyddiannau mwyaf nodedig y flwyddyn:

- Gallu fy Swyddfa i barhau i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd a phartneriaid, drwy gydol y pandemig – diolch i'r tîm;
- Parhau i ddarparu fy ngwasanaethau a gomisiynir i helpu i atal troseddu, cefnogi'r rhai sy'n agored i niwed a mynd i'r afael â materion cymunedol;
- Sicrhau cyllid ychwanegol hanfodol i sefydliadau lleol sy'n cefnogi dioddefwyr trais domestig a rhywiol drwy gydol y pandemig;
- Sicrhau cyllid gan Gronfa Strydoedd Mwy Diogel y Swyddfa Gartref i fynd i'r afael â throseddu mewn dwy o ardaloedd mwyaf difreintiedig yr Heddlu;
- Llwyddiant y rhaglen ariannu cymunedol newydd - Cyllidebu Cyfranogol - ar draws ardal Dyfed-Powys;
- Cau Canolfan Llety Lloches Penalun yn dilyn fy ymgyrch lwyddiannus i lobïo'r Swyddfa Gartref;
- Mabwysiadu dull digidol o ymgysylltu â'r cyhoedd yn effeithiol;
- Cynnal fy Nghynhadledd Dewi Sant flynyddol yn ddigidol, gan ganolbwyntio ar ddioddefwyr; a
- Pharhau i roi llais i bobl ifanc a dioddefwyr drwy waith fy Fforwm Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr Dyfed-Powys.

Cafodd Etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu eu haildrefnu ar gyfer 6 Mai 2021, ac rwy'n falch iawn fy mod wedi cael fy ailethol gan y cyhoedd. Edrychaf ymlaen at barhau yn fy rôl fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, gan gydweithio i gadw cymunedau ardal Dyfed-Powys yn ddiogel.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus.



Dafydd Llywelyn
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys

2. Rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau

Dyma 12 peth i'w gwybod am rôl Comisiynydd Heddlu a Throseddau (CHTh).

Mae'r CHTh yn gyfrifol am:

1. Osod y blaenoriaethau ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys;
2. Cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddau;
3. Ymgysylltu â Chymunedau a chynrychioli llais y cyhoedd ar faterion plismona;
4. Gweithio'n agos â phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol;
5. Cefnogi dioddefwyr a dod â phobl o flaen eu gwell;
6. Comisiynu gwasanaethau i wneud cymunedau'n fwy diogel a chefnogi'r rhai sy'n agored i niwed;
7. Penodi'r Prif Gwnstabl, a'i ddiswyddo os oes angen;
8. Ymdrin â chwynion a materion disgyblu yn erbyn y Prif Gwnstabl;
9. Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif; a
10. Gosod lefel praesept a chyllideb flynyddol yr Heddlu.

Nid yw'r CHTh yn gyfrifol am:

11. Drefnu a chyflwyno gwasanaethau heddlu o ddydd i ddydd, sef "plismona gweithredol"; nac
12. Ymchwilio i gwynion yn erbyn swyddogion heddlu islaw gradd y Prif Gwnstabl.



I wylïo ein fideo yn esbonio rôl a chyfrifoldebau Comisiynydd Heddlu a Throseddau, ewch i'n tudalen ar YouTube, yma:



<https://www.youtube.com/watch?v=ZrPjq4xCf7k>

3. Blaenoriaethau Cynllun Heddlu a Throseddau 2017-2021

Nodir Blaenoriaethau'r Comisiynydd, a'r egwyddorion sy'n sail iddynt, yng Nghynllun Heddlu a Throseddau 2017-2021.

Blaenoriaethau

1. Cadw ein cymunedau'n ddiogel;
2. Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed;
3. Amddiffyn ein cymunedau rhag bygythiadau difrifol; a
4. Chysylltu â chymunedau.

Egwyddorion

1. Cefnogi dioddefwyr;
2. Ymgysylltu â'r cyhoedd;
3. Gweithio gyda'n gilydd;
4. Darparu arweinyddiaeth gref; a
5. Sicrhau gwerth am arian

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn dangos y cynnydd a wnaed gan y Comisiynydd a'i dîm yn ystod 2020-2021 tuag at gyflawni'r blaenoriaethau hyn.



Cynllun Heddlu a Throseddau 2021-2025

Fel gofyniad statudol allweddol, rhaid i Gomisiynwyr gyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddau o fewn blwyddyn gyntaf tymor newydd.

Yn gynnar yn nhrydydd tymor y CHTh, dechreuodd y CHTh a'i dîm weithio i ddatblygu Cynllun Heddlu a Throseddau newydd 2021-2025.

Mae ymarfer ymgynghori cynhwysfawr

yn mynd rhagddo, gan ymgorffori cymysgedd o sesiynau wedi'u hwyluso sy'n targedu grwpiau sy'n cael llai o wrandawriad, ymgynghori uniongyrchol â rhanddeiliaid a phartneriaid, a chyfathrebu ac ymgysylltu cyhoeddus cyffredinol.

Bydd Cynllun Heddlu a Throseddau 2021-2025 yn cael ei gyhoeddi tua diwedd 2021 / yn gynnar yn 2022.

Gallwch ddarllen Cynllun yr Heddlu a Throseddau yma:

<http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/en/the-commissioner/the-police-and-crime-plan/>



4. Gweithio i Gyflawni'r Blaenoriaethau

Blaenoriaeth 1 Cadw Ein Cymunedau'n Ddiogel

Canolfan Llety Lloches Penalun

Cafodd penderfyniad y Swyddfa Gartref ym mis Medi 2020 i ddefnyddio Gwersyll y Weinyddiaeth Amddiffyn ym Mhenalun, Sir Benfro i letya ceiswyr lloches effaith bellgyrhaeddol ar gymunedau lleol.

Roedd y CHTH yn feirniadol o'r penderfyniad hwn o'r cychwyn cyntaf, a phrofwyd bod cyfiawnhad dros ei bryderon yn dilyn canfyddiadau cychwynnol Arolygiad Annibynnol gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a'r Prif Arolygydd Annibynnol ar gyfer Ffiniau a Mewnffudo, a gyhoeddwyd ddechrau mis Mawrth 2021.

Roedd canfyddiadau'r adolygiad yn ddamniol, a galwodd y CHTH ar yr awdurdodau i gau'r llety. Wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref y byddai'r ganolfan ym Mhenalun yn cau.

Gwelodd y CHTH drosto'i hun yr amgylchiadau anodd a wynebai'r unigolion a oedd yn byw yn y ganolfan yn dilyn ymweliadau yn ystod hydref 2020, ac mae canfyddiadau'r adroddiad yn amlygu'r pryderon a'r ofnau yr oedd y CHTH a rhanddeiliaid lleol eraill wedi'u codi gyda'r Swyddfa Gartref ar sawl achlysur.

Roedd y diffyg cynllunio strategol ynghylch defnyddio'r gwersyll, yn ogystal â'r diffyg ymgysylltu â'r gymuned, yn rhwystredig iawn i'r CHTH, yr Heddlu a llawer o bartneriaid eraill yn yr ardal, gan gynnwys yr awdurdod lleol, a'r gwasanaeth iechyd. Arweiniodd at bwysau diangen ar adnoddau lleol ar adeg pan oeddem



Lluniau: SI WORLEY 2020



yn ceisio amddiffyn ein cymunedau rhag pandemig byd-eang.

Mae'r Comisiynydd yn parhau i ymwneud â'r mater hwn, gan bwysu am drafodaethau rhwng Gweinidogion Llundain a Llywodraeth Cymru a gwasanaethau lleol, er mwyn sicrhau ateb hirdymor i'r argyfwng.

Dywedodd y CHTH Dafydd Llywelyn;

"Hoffwn roi ar goedd fy niolchgarwch i'r holl asiantaethau lleol a weithiodd yn ddiflino i wneud y gorau o'r sefyllfa anodd. Gobeithio bod y Swyddfa Gartref wedi dysgu gwerau arall ynglŷn â pha mor bwysig yw ymgynghori â chymunedau lleol a rhanddeiliaid allweddol gyda phenderfyniadau o'r fath. Wrth i ni edrych i'r dyfodol, mae angen sicrhau bod llety addas, iach a diogel ar gael i geiswyr lloches - mae'r rhain yn bobl sydd wedi gorfod dianc rhag problemau ac argyfyngau a sefyllfaoedd peryglus mewn gwledydd ledled y byd."



Rheoli Troseddwy yn Integredig

Ar ôl adnewyddu Strategaeth Rheoli Troseddwy yn Integredig (IOM) y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, cadarnhaodd y CHTH gyllid mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i gefnogi strategaeth newydd ar gyfer IOM. Bydd hyn yn sicrhau bod cymorth uniongyrchol ar gael i droseddwy i helpu i leihau cyfraddau aildroseddu, gan felly leihau'r posibilrwydd o ormesu.

Yn unol â'r strategaeth IOM, bydd y ffocws ar droseddau cymdogaeth: ysbeilio, byrgleriaeth, lladrata a dwyn cerbydau. Troseddau fel hyn sydd â'r lefelau uchaf o aildroseddu o unrhyw fathau o droseddau, ac maent yn gyfran uchel o achosion o aildroseddu.

Nod IOM yw cefnogi troseddwy i ymatal rhag troseddu drwy helpu i ddiwallu anghenion sylfaenol fel camddefnyddio sylweddau, anghenion tai a chyflogaeth, a materion iechyd meddwl.

Bydd yr arian yn galluogi i ddau ymyriad presennol ar gyfer troseddwy gael eu cyflwyno ar draws ardal yr heddlu. Bydd hyn yn cynnwys ymestyn cynllun peilot ymyrraeth â throseddwy ar-lein ar gyfer darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig, a gydnabyddir fel maes gwaith blaenllaw ledled Cymru. Lanswyd y peilot ym Mhowys i ddechrau, ond bydd ar gael ar draws ardal Dyfed-Powys.

Dywedodd Gemma Jones, Cydlynnydd IOM Heddlu Dyfed-Powys;

"Mae'r cyllid hwn yn hanfodol i alluogi troseddwy i gael mynediad at ymyriadau pwrpasol na fyddent fel arfer yn gymwys i'w cael. Bydd yn cwmpasu unrhyw beth o fynediad at wasanaethau cwnsela penodol i becynnau cefnogaeth ar gyfer y cartref ac ymyriadau gwybyddol ymddygiadol sy'n cefnogi newidiadau mewn agweddau, credoau a gwerthoedd sy'n gysylltiedig â'u hymddygiad troseddol."

Ochr yn ochr â hyn mae rhaglen Ymyriadau â Throseddwy Choices, a ddarperir gan Wasanaethau Cam-drin Domestig Threshold, a fydd hefyd ar gael ar draws ardal gyfan yr heddlu. Nod rhaglen troseddwy Choices yw herio

credoau, agweddau ac ymddygiadau dynion dros 18 oed sy'n cymryd rhan mewn gweithredoedd o gam-drin domestig o unrhyw fath. Mae'r ymyriad hefyd yn galluogi gwasanaethau i wella diogelwch dioddefwyr a'u teuluoedd sy'n profi cam-drin domestig. Mae'r rhai a gefnogwyd drwy'r rhaglen Choices wedi nodi gwelliannau sylweddol mewn perthnasoedd, cyfathrebu a rianta, ynghyd â gostyngiadau mewn trais. Mae plant o fewn y teuluoedd yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy diogel a bod iechyd a lles y teulu cyfan wedi cynyddu.

Cafodd yr IOM ei gynnwys yng nghyhoeddiad Comisiynydd Cymdeithas yr Heddlu a Throseddu: PCCs Making a Difference: Reducing Reoffending In Focus. Gallwch ddarllen mwy ar dudalen 47 yma:

<https://apccs.police.uk/campaigns/pccs-making-a-difference/>



Cynllun Dargyfeirio Troseddwy

Parhaodd y Cynllun Dargyfeirio Troseddwy, a lanswyd yn 2019, â'i waith pwysig hyd at 2020-2021. Drwy'r Cynllun, mae troseddwy cymwys yn cael y cymorth a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt i aros allan o'r system cyfiawnder troseddol. Bydd gan lawer o'r rhain anghenion sylfaenol sylweddol, megis camddefnyddio sylweddau neu ddyled ariannol a risg o golli tenantiaethau. Mae troseddwy yn cael asesiad cynhwysfawr, ac mae rhaglen gymorth yn cael ei datblygu, gyda mynediad uniongyrchol i asiantaethau fel Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed (DDAS) a Kaleidoscope.

Parhaodd gwasanaeth Gofal a Chymorth Pobl i weithio ar y cyd ag amrywiaeth eang o sefydliadau i sefydlu llwybrau atgyfeirio at ymyriadau gwasanaeth cyffredinol ac arbenigol. Yn ystod 2020-2021, cyfeiriwyd 701 o droseddwy ac ymgysylltodd 77% o atgyfeiriadau â'r rhaglen. Y prif anghenion ymhlith y garfan oedd cyffuriau, agweddau, meddwl ac ymddygiad, budd-daliadau cyllid a dyled, ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

701 o droseddwy
wedi eu dargyfeirio i'r Cynllun

Yn ystod 2020-2021, cwblhaodd 479 o droseddwr y cyfnod contract 4 mis yn llwyddiannus, gan ymadael â'r cynllun. Caiff tri chanlyniad allweddol eu hasesu gan droseddwr o ran sut mae'r Cynllun wedi effeithio ar eu bywydau:

479 o droseddwr yn cwblhau a gadael y cynllun

Teimlo fy mod wedi cael fy ngalluogi i wneud dewisiadau cadarnhaol **91%**

Teimlo fy mod wedi cael fy ngrymuso i wneud newidiadau cadarnhaol **90%**

Adroddiadau am well diogelwch **89%**

Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau

Buddsoddodd y Comisiynydd mewn trefniant comisiynu pellach ar y cyd â Bwrdd Cynllunio Ardal Hywel Dda ar gyfer darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn ystod 2020-2021. Cytunwyd ar y buddsoddiad dwy flynedd hwn gyda'r gofyniad am werthuso parhaus i lywio datblygiad gwasanaethau atal yn y dyfodol, ynghyd â data perfformiad a chanlyniadau manwl.

Drwy gydol y flwyddyn, ymgysylltodd y darparwyr Kaleidoscope a Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed (DDAS), â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau (SCHTh) a chydweithwyr yn Heddlu Dyfed-Powys, gan roi diweddariadau rheolaidd ar dueddiadau cyffuriau sy'n fgythiad i gymunedau.

Mae'r gwasanaethau'n derbyn tua 3,000 o atgyfeiriadau bob blwyddyn, gyda thua 1,000 o'r rhain yn dod o ffynonellau cyfiawnder troseddol. Gadawodd 70% o unigolion y gwasanaeth gyda chanlyniad cadarnhaol, megis bod yn rhydd o gyffuriau neu orffen troseddu.

3,000 o atgyfeiriadau bob blwyddyn



Mae'r CHTh wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid y Bwrdd Cynllunio Ardal i sicrhau y gellir dangos gwerth y buddsoddiad ar y cyd, a bod cynigion ariannu yn y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n hanfodol bod y gwasanaethau hyn yn gweithio'n rhagweithiol i dargedu'r rhai sy'n tarfu ar gymunedau lleol ac eto nad ydynt yn ymwneud yn weithredol â gwasanaethau.

Yn ogystal, mae'r SCHTh wedi gweithio gyda phartneriaid yn ardal Powys i ddarparu Asesiad Anghenion wedi'i adnewyddu, ac i ddiwygio'r fanyleb ar gyfer y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y boblogaeth.

Bydd y CHTh yn aifuddsoddi yn y gwasanaeth hwn a gomisiynir ar y cyd gyda Bwrdd Cynllunio Ardal Powys o fis Ebrill 2022.

Cyfiawnder Adferol

Mae cyfiawnder adferol yn dwyn ynghyd y rhai y mae troseddau'n effeithio arnynt a'r rhai sy'n gyfrifol am y niwed, gan rymuso pawb i fod â rhan mewn trwsio'r niwed a dod o hyd i ffordd gadarnhaol ymlaen. Gall fod yn rhan hanfodol o daith dioddefwr a helpu i leihau aildroseddu.

Yn ystod 2020-2021, parhaodd y CHTh i ariannu Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru i gefnogi dioddefwyr i baratoi ar gyfer y broses cyfiawnder adferol ac i hwyluso cyfarfodydd neu gyfathrebu â'r troseddwr. Yn anffodus, cafodd gwaith y gwasanaeth ei ohirio oherwydd COVID-19.

Er gwaethaf hyn, parhaodd y CHTh i ddangos ei ymrwymiad i gyfiawnder adferol, a chyflawni ei ddyletswydd o dan God Ymarfer Dioddefwyr i sicrhau bod dioddefwyr yn gallu cael mynediad i gyfiawnder adferol. Er enghraifft, ym mis Mawrth 2021, llofnododd y CHTh addewid gyda Why Me?, gan ddangos ei gefnogaeth i'r broses.

ADDEWID:

Addawodd y CHTh i weithio i sicrhau bod pawb sy'n dioddef trosedd ar draws ardal Dyfed-Powys yn cael gwell gwybodaeth am gyfiawnder adferol, i'w galluogi i benderfynu drostynt eu hunain a yw'n broses y maent am gymryd rhan ynddi.

Ym mis Tachwedd 2020 yn ystod Wythnos Cyfiawnder Adferol, gofynnodd y CHTh i aelodau o'r cyhoedd a dioddefwyr troseddau sy'n eistedd ar Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr Dyfed-Powys roi adborth ar y broses cyfiawnder adferol. Gofynnwyd iddynt ystyried ystyr a dealltwriaeth o'r term yn ogystal â'r pwynt lle y dylid hysbysu dioddefwr am gyfiawnder adferol a lle dylid ei gynnig iddo. Roedd casglu'r adborth hwn yn gam pwysig i lywio'r defnydd o gyfiawnder adferol wrth iddo barhau i ddatblygu o fewn ardal Dyfed-Powys.

Teledu Cylch Cyfyng (TCC)

Yn 2016, addawodd CHTh i fuddsoddi mewn seilwaith TCC modern i wella diogelwch trefi a chymunedau Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys.

Parhaodd yr addewid hwn i gyflawni ar gyfer cymunedau lleol drwy gydol 2020-2021: Erbyn diwedd Mawrth 2021, roedd 151 o gamerâu wedi'u gosod ar draws 23 o drefi. Gyda gwaith i osod camerâu mewn dwy dref ychwanegol, sef Aberaeron ac Arberth, wedi'i gynllunio ar gyfer haf 2021, bydd y prosiect wedyn yn dod i ben. Rhagwelir y bydd y seilwaith TCC, ar ddiwedd y prosiect, yn cynnwys 158 o gamerâu TCC ar draws 25 o drefi.





Bydd y camerâu TCC yn parhau i fod yn ased gwerthfawr o ran cadw ein trefi'n ddiogel, a helpu i ganfod troseddau. Yn ogystal â hyn, mae TCC hefyd yn helpu i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed ar draws ardal yr heddlu.

Tachwedd 2020 – Pennawd – Mae gweithredwyr TCC yr Heddlu yn hanfodol wrth chwilio am bobl sydd ar goll – gan ddod o hyd i chwech o bobl yn ddiogel ac yn iach mewn saith diwrnod.

Sicraodd Gweithredwyr TCC yn y ganolfan reoli TCC fod chwech o bobl – gan gynnwys pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion sy'n agored i niwed – wedi'u lleoli'n gyflym ar draws ardal yr heddlu, gyda phump o'r chwech wedi'u canfod o fewn 30 munud.

Dywedodd y Cydgyssylltydd TCC; *“Mae'r tîm wedi bod yn llwyddiannus iawn ac o fewn un wythnos mae perfformiad eithriadol wedi gweld y tîm yn canfod yn llwyddiannus ble roedd chwech o bobl ar goll, gan ganiatáu i swyddogion eu dychwelyd i'w hanwyliaid, eu gofalwyr a'u teuluoedd.”*

Dros un wythnos:

-  daethpwyd o hyd i ferch 15 oed o fewn 10 munud i adroddiad ei bod ar goll;
-  cafodd menyw 52 oed ei lleoli mewn 13 munud;
-  cafwyd hyd i ddau berson ifanc ar wahân yn eu harddegau – 14 a 17 oed – mewn hanner awr; a
-  Gwelodd gweithredwyr ferch 14 oed yn cerdded drwy ganol tref yn y tywyllwch yn ystod oriau mân y bore.

Mawrth 2021: 151 camerau ar draws 23 tref.




Dysgwch fwy am sut mae Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio camerâu TCC yma:

<https://www.dyfed-powys.police.uk/cy-GB/foi-ai/af/cyrchu-gwybodaeth/cctv/camerau-teledu-cylch-cyfyng/>



Lleoliadau Camerâu Teledu Cylch Cyfyng

Aberystwyth	Carmarthen	Llwynhendy	Pembroke Dock
Ammanford	Fishguard	Machynlleth	Saundersfoot
Brecon	Haverfordwest	Milford Haven	Tenby
Builth Wells	Lampeter	Newcastle Emlyn	Welshpool
Burry Port	Llandrindod Wells	Newtown	Ystradgynlais
Cardigan	Llanelli	Pembroke	





Meddai'r CHTh Dafydd Llywelyn;

Yr hyn sy'n bwysig yw sicrhau bod ein cymunedau mor saff a diogel â phosibl ac mae'n galonogol iawn gweld yr effaith gadarnhaol mae'r seilwaith TCC, yr ystafell fonitro ganolog a'n tîm o weithredwyr TCC yn ei chael ar blismona drwy'r heddlu.



Camerâu Cyflymder Cymunedol

Yn ogystal â'r seilwaith TCC sefydlog, ym mis Mawrth 2021, darparodd CHTh gyllid i dîm Gan Bwyll Heddlu Dyfed-Powys i brynu deg dyfais mesur cyflymder ar gyfer timau Cofnodi Cyflymder Cymunedol ar draws ardal yr heddlu.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gweld cynnydd ym mhryderon y gymuned ynghylch goryrru ar draws ardal yr Heddlu, a bydd yr arian hwn yn cryfhau cyfleoedd i wirfoddolwyr Cofnodi Cyflymder Cymunedol gefnogi Heddlu Dyfed-Powys i sicrhau ffyrdd mwy diogel yn ein cymunedau.



Y Rhingyll Ian Price, o Uned Lleihau Niwed ar y Ffyrdd Gan Bwyll Heddlu Dyfed-Powys:

"Bydd Gan Bwyll yn parhau i ddarparu cymorth arbenigol wrth hyfforddi a rheoli ein gwirfoddolwyr cofnodi cyflymder cymunedol ar draws yr heddlu. Rydym yn ddiolchgar am y cymorth ariannol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau a fydd yn helpu i blismona'n effeithiol yn ein cymunedau i leihau'r risg o niwed ar ein ffyrdd ac annog eraill i helpu i ddarparu cymunedau mwy diogel ar draws Dyfed Powys i leihau cyflymder a'r niwed ddaw yn sgil hynny."



Buddsoddi Cymunedol

Cronfa Strydoedd Diogelach

Nod Cronfa Strydoedd Diogelach y Swyddfa Gartref yw cyflawni cynlluniau atal troseddau gyda'r canlyniad o leihau troseddau meddiannu drwy ddulliau atal sefyllfaol.

Bu'r CHTh yn llwyddiannus wrth geisio cyllid drwy'r Gronfa Strydoedd Mwy Diogel i ddatblygu prosiect yn wardiau Glan-y-môr a Thyisha yn Llanelli, gyda phartneriaid allweddol, gydag elfennau'n cynnwys:

- Pecynnau Atal Troseddau Cymunedol am Ddim ar gyfer cartrefi;
- Cyflogi dau Warden Cymunedol newydd;
- Cynllun grantiau bach ar gyfer elusennau, mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn ardal Llanelli;
- Glanhau strydoedd yn fwy, gwelliannau amgylcheddol a gwaith i wella'r ardal; a
- Phecynnau SelectaDNA a phecynnau Beicio diogel ar gyfer aelodau'r gymuned yn y wardiau.

Ym mis Mawrth 2021, ymunodd CHTh â Thîm Plismona Bro Llanelli a phartneriaid yn y dref ar gyfer Diwrnod Gweithredu, lle dosbarthwyd nifer o Becynnau Atal Troseddau i breswylwyr yn y ddwy ward.




Llun: @SwansCommunity

'Kicks' Uwch-gynghrair yn Noc Penfro

Ym mis Tachwedd 2020, ymwelodd CHTh â Doc Penfro i fynychu lansiad menter newydd 'Kicks' Uwch-gynghrair yn yr ardal.

Ariennir 'Kicks' Uwch-gynghrair gan y CHTh a chaiff ei rhedeg mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Gymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe. Cymerodd dros 90 o bobl ifanc o ardal Doc Penfro ran yn y sesiwn gyntaf nos Wener, gyda'r sesiynau – sy'n rhad ac am ddim i bawb – yn parhau'n wythnosol. Yn ystod y sesiynau, mae'r bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol amrywiol, fel sesiynau hyfforddi pêl-droed, yn ogystal â sesiynau anffurfiol sy'n mynd i'r afael â materion trosedd.



Meddai'r CHTh Dafydd Llywelyn;

"Roedd hi'n ffrainc mynychu'r noson agoriadol, i weld dros of fy hun y dylanwad cadarnhaol mae menter fel 'Kicks' Uwch-gynghrair yn ei gael ar y bobl ifanc yma, a'r gymuned ehangach."



Buddsoddi mewn Plismona

Er bod y CHTh yn buddsoddi yng nghymunedau ardal Dyfed-Powys, mae hefyd yn cefnogi buddsoddiad mewnol yn yr Heddlu yn gryf er mwyn sicrhau y cyflwynir gwasanaethau ar lefel uchel i aelodau'r gymuned. Mae'r CHTh wedi cefnogi a buddsoddi cyllid yn y mentrau canlynol:

- **Cydllynydd Trais Difrifol a Throseddau Trefnedig;**
- **Rôl Ymchwilydd Ariannol, a Swyddog Diogelu a Swyddog Brysbennu Twyll o fewn yr Uned Troseddau Ariannol;**
- **Hyfforddiant Cyfryngu i'r Tîm Plismona Bro;**
- **Prynu dau gerbyd ychwanegol ar gyfer Uned Plismona'r Ffyrdd;**
- **Buddsoddi mewn cerbyd penodol â bwllch mawr rhwng yr olwynion blaen a chefn i gynorthwyo Uned Plismona'r Ffyrdd gyda gweithrediadau penodol; a**
- **Phrynu pecynnau Profi Cyffuriau ar gyfer cerbydau'r Uned Plismona'r Ffyrdd.**



Blaenoriaeth 2 Diogelu'r Rhai sy'n Agored i Niwed

Cefnogaeth i Ddiodeffwyr Cam-drin Domestig

Yn ystod 2020-2021, parhaodd y CHTh i weithio gyda phartneriaid i sicrhau cefnogaeth gyfannol i ddiodeffwyr cam-drin domestig. Roedd hyn yn cynnwys goruchwyllo rhai datblygiadau allweddol o fewn Heddlu Dyfed-Powys gyda'r nod o wella'r ymateb uniongyrchol a pharhaus i ddiodeffwyr.

Mae'r CHTh yn ariannu nifer o ddarparwyr gwasanaethau sy'n cefnogi diodeffwyr o'r pwynt adrodd hyd at ymddangosiadau llys, gan sicrhau bod lefelau risg yn gostwng, a bod cynlluniau diogelwch ar waith ar gyfer diodeffwyr a'u teuluoedd.

Mae'r gwasanaeth Ymgynghorol Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) yn parhau i gefnogi diodeffwyr risg uchel ac yn cyflawni canlyniadau hanfodol.

Yn ystod 2020-2021 derbyniodd y gwasanaeth IDVA 1,144 o atgyfeiriadau newydd, gydag 85% o atgyfeiriadau yn ymgysylltu â'r gwasanaeth. Roedd 31% yn ail atgyfeiriadau ac mewn 70% o atgyfeiriadau, cysylltwyd â'r diodeffwr o fewn un diwrnod gwaith.

Cafodd 34% o ddefnyddwyr gymorth wyneb yn wyneb, gyda'r gweddill yn gymorth dros y ffôn neu'n ddigidol.

O ran canlyniadau, mae 74% o gleientiaid yn adrodd eu bod yn teimlo'n fwy diogel, mae 90% o gleientiaid yn adrodd bod ansawdd eu bywyd yn well, ac roedd 98% o gleientiaid yn fodlon ar y gwasanaeth cyffredinol a dderbyniwyd.

DEILLIANNAU'R GWASANAETH IDVA

74% o gleientiaid yn nodi eu bod yn teimlo'n fwy diogel

90% o gleientiaid yn nodi gwell ansawdd bywyd

98% o gleientiaid yn fodlon â'r gwasanaeth cyffredinol a gawsant

1,144 o atgyfeiriadau



Cefnogaeth i Ddiodeffwyr Cam-drin Rhywiol

Drwy gydol 2020-2021, parhaodd Llwybrau Newydd i ddarparu mynediad 24 awr y dydd i gymorth mewn argyfwng i ddiodeffwyr cam-drin rhywiol, a chefnogaeth barhaus mewn amgylchedd diogel, gan gynnig diogelwch a gofal clinigol a fforensig arbenigol.

Derbyniodd y gwasanaeth 352 o atgyfeiriadau yn ystod 2020-2021, gyda 51% o'r rhain ar gyfer achosion hanesyddol. Roedd 21% o atgyfeiriadau ar gyfer plant o dan 16 oed, ac roedd 12% arall ar gyfer pobl ifanc 16-17 oed.

Dywedodd 80% o ddefnyddwyr y gwasanaeth eu bod yn teimlo'n fwy abl i ymdopi, gyda 90% yn profi gostyngiad mewn symptomau gorbryder.

Mae'r CHTh yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid ym maes plismona ac iechyd i ddarparu model cydgysylltiedig o ddarparu gwasanaethau cam-drin rhywiol ledled Cymru. Cynhaliwyd gwaith yn ystod 2020-2021 i sicrhau bod safleoedd a ddefnyddir i ddarparu archwiliadau meddygol i ddiodeffwyr yn cydymffurfio â safonau achredu sydd newydd eu gweithredu ar gyfer gwasanaethau fforensig a meddygol.

Mae tîm y CHTh hefyd yn gweithio gydag arbenigwr annibynnol a fydd yn adolygu'r galw presennol a'r modelau darparu gwasanaethau i lywio cam cymunedol y model rhanbarthol.

352 o atgyfeiriadau
i ddiodeffwyr trais rhyw

DEILLIANNAU'R GWASANAETH CEFNOGI:

80% o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi yn well.











90% o ddefnyddwyr gwasanaethau yn profi llai o symptomau pryder



Cyllid Ychwanegol ar gyfer Dioddefwyr Trais Domestig a Rhywiol

Yn ystod y flwyddyn, sicrhodd CHTH ddwy gronfa o gyllid ychwanegol hanfodol gan y llywodraeth ar gyfer sefydliadau sy'n darparu cymorth i ddiodeffwyr trais domestig a rhywiol, i gynorthwyo gyda chostau sy'n gysylltiedig â COVID-19. Darparwyd yr arian ychwanegol hwn pan oedd rhai sefydliadau'n ei chael hi'n anodd parhau â'u gwaith hanfodol, ac ar yr union adeg pan gynyddodd y risg i'r rhai sydd wedi'u dal mewn sefyllfaoedd lle profir camdriniaeth a cham-fanteisio.

Ym mis Mehefin 2020, sicrhodd swyddfa'r CHTH £140,000 o gyllid ar gyfer 10 sefydliad i sicrhau bod y bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas yn cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt yn ystod y pandemig.

-  Hafan Cymru
-  Gofal a Chymorth Pobl
-  Llwybrau Newydd
-  Prifysgol Aberystwyth (sy'n rhedeg gwasanaeth Dewis Choice)
-  Gwasanaeth Trais Domestig Calan
-  Gwasanaeth Cam-drin Domestig Sir Gaerfyrddin
-  Canolfan Argyfwng Teulu Sir Drefaldwyn
-  Pembrokeshire People First
-  Gwasanaeth Cam-drin Domestig Threshold
-  Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru

Ym mis Gorffennaf 2020, sicrhodd y CHTH £118,000 o gyllid ychwanegol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer recriwtio Cyngorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVAs) newydd. Mae ISVA yn darparu cymorth emosiynol ac ymarferol i ddiodeffwyr trais rhywiol neu ymosodiadau rhywiol, a'i brif rôl yw darparu cymorth o amgylch y broses cyfiawnder troseddol.

O ystyried natur wledig yr ardal, mae'n bwysig bod gwasanaethau ISVA ar gael i unigolion nad ydynt yn gallu teithio i ganolfannau. Mae'r gwasanaeth ISVA yn cael ei gysoni â Llwybrau Newydd, ac mae'n galluogi darparu adnodd pwrpasol, gan sicrhau bod y ddarpariaeth hyblyg hon ar gael ac yn gynaliadwy. Bydd hefyd yn galluogi gwell cymorth ISVA i blant a phobl ifanc.

Goleudy

Drwy gydol 2020-2021, parhaodd Goleudy i gefnogi diodeffwyr a thystion, a'u teuluoedd. Yn ystod 2020-2021, cyfeiriwyd dros 25,000 o ddiodeffwyr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol at Goleudy i asesu eu hangen am gymorth. Roedd dros 40% o'r diodeffwyr a ddewisodd beidio â chael cymorth gan Goleudy eisoes yn cael cymorth gan asiantaeth arbenigol arall, ac nid oedd 39% arall yn teimlo bod y drosedd wedi effeithio arnynt.

Cyfeiriodd Goleudy ddiodeffwyr at wasanaethau cymorth arbenigol yn ôl yr angen gan gynnwys iechyd meddwl, cam-drin domestig, trais rhywiol a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Datgelodd holiaduron ymadael fod dros 80% o ddiodeffwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i'w cyswllt â Goleudy. Dywedodd dros 85% o ddiodeffwyr hefyd eu bod yn teimlo'n fwy abl i ymdopi ag effaith y drosedd ac roedd bron i 80% yn teimlo'n fwy abl i ddelio â'u profiad yn dilyn eu cefnogaeth gan y gwasanaeth.

Gweithiodd grŵp prosiect o swyddogion Heddlu Dyfed-Powys a staff y SCHTh yn ystod 2020-21 i adolygu a gweithredu nifer o argymhellion a oedd yn

deillio o ymarferion craffu ar wasanaethau diodeffwyr. Mae'r gwaith hwn wedi cyflawni rhai gwelliannau cadarnhaol yn y gwasanaethau y mae diodeffwyr yn eu derbyn gan Heddlu Dyfed-Powys ac asiantaethau cymorth, a bydd y SCHTh yn parhau i arwain ar y gwaith hwn yn 2021-2022 a thu hwnt. Bydd Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr Dyfed-Powys yn hanfodol i gasglu adborth gan ddiodeffwyr.

DEILLIANNAU GWASANAETH CEFNOGAETH GOLEUDY:

Dywedodd dros 80% o ddiodeffwyr eu bod yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i'w cyswllt â Goleudy

Dywedodd dros 85% o ddiodeffwyr eu bod yn teimlo'n fwy abl i ymdopi gydag effaith y drosedd

Roedd bron i 80% yn teimlo eu bod yn fwy cymwys i ddelio â'u profiad

Dros 25,000 o ddiodeffwyr wedi eu hatgyfeirio at Goleudy.



Embrace – Dioddefwyr Trosedd sy'n Blant

Yn ystod 2020-2021, parhaodd y CHTh yn ei rôl fel Ymddiriedolwr ac Aelod o'r Bwrdd gydag Embrace: yr unig elusen genedlaethol sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar gefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi dioddef troseddau difrifol.

Ym mis Medi 2020, gwahoddwyd y CHTh i gymryd rhan mewn cyfres o weminarau Embrace, a oedd yn ceisio rhoi mewnwelediad ynghylch plant a theuluoedd sy'n cael eu niweidio gan droseddau. Cynhaliodd y CHTh weminar, o'r enw 'Mynd i'r afael â'r bygythiad ar-lein 24/7 i gadw pobl ifanc yn ddiogel rhag peryglon cudd seiberdroseddau – Ni allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain, Gweithio gyda Phartneriaid'. Ymdriniodd â'r risg gynyddol o fod â chyfryngau cymdeithasol fel rhan mor annatod o'n bywydau, yr ystadegau brawychus sy'n gysylltiedig â'r mathau hyn o droseddau, a'r cyllid y mae'n ei ddarparu ar gyfer prosiectau amrywiol sy'n diogelu cymunedau.

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gwaith a wnaed gan Embrace a'r materion a wynebir gan y plant a'r teuluoedd y mae'r elusen yn eu helpu, gwahoddodd y CHTh Brif Weithredwr Embrace, Anne Campbell, i ymuno ag ef mewn sgwrs ar Facebook Live fel rhan o'i Gynhadledd Dewi Sant ym mis Mawrth 2021.



Yn ystod y Gynhadledd, dywedodd Anne Campbell am yr Elusen;

“Rydym yn ymfalchïo mewn darparu'r math o gymorth a fydd yn gwneud gwahaniaeth i bob plentyn a'i deulu sydd wedi cael eu niweidio gan drosedd. Rydym am weithio'n agos gyda Chomisiynwyr ac mae'n bwysig i ni gael y CHTh ar ein Bwrdd.”



Cynhadledd Dewi Sant – Canolbwyntio ar Ddioddefwyr

Ym mis Mawrth 2021, cynhaliodd y CHTh Gynhadledd Dewi Sant am y pumed tro, gan ganolbwyntio ar ddioddefwyr. Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, cafodd Cynhadledd Dewi Sant 2021 ei ffrydio'n fyw ar Facebook a YouTube, sy'n golygu bod y Gynhadledd yn fwy hygyrch i bawb. Yn wir, mae miloedd wedi gwyllo'r fideos o ddarllediadau byw'r Gynhadledd ers hynny.



Mae pob un o'r pum sesiwn yn dal i fod ar gael i'w gweld ar ein tudalen Facebook www.facebook.com/DPOPC



Meddai'r Comisiynydd Dafydd Llywelyn;

“Mae'n hanfodol bod dioddefwyr yn gwybod pa wybodaeth a chymorth sydd ar gael iddynt, ac roedd fy Nghynhadledd yn gyfle i hyrwyddo gwasanaethau cymorth, ac i glywed gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes hwn.”



Ymhlith y rhai a ymunodd â'r CHTh roedd: Comisiynydd y Dioddefwyr, y Fonesig Vera Baird a siaradodd am ei gwaith yn cynrychioli pawb sy'n dioddef troseddau; cynrychiolwyr o Dewis Choice, sy'n cefnogi dioddefwyr hŷn cam-drin domestig; Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Heddlu Dyfed-Powys, Emma Ackland; Hugh Simkiss, Pennaeth Trosedd GLIEM Cymru; ac Anne Campbell o Embrace Child Victims of Crime.

Amddiffyn Plant – Cymorth a chyfyngu ar gyfer pobl ifanc sydd ar goll

Yn ystod 2020-2021, parhaodd Llamau i ddarparu gwasanaeth annibynnol ar gyfer ôl-drafod, cymorth a chyfyngu ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu cofnodi fel rhai sydd ar goll ac sydd mewn perygl o gam-fanteisio rhywiol, yn ogystal â'u teuluoedd.

Roedd 17% o'r holl bobl ifanc a atgyfeiriwyd ar gyfer ôl-drafodaeth gan Llamau yn ystod 2020-2021 yn dangos arwyddion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE). Nodwyd achosion hefyd yn ystod yr ôl-drafodaethau lle'r oedd pobl ifanc yn wynebu risg sylweddol fel dioddefwyr a chyflawnwyr troseddau.

Roedd Llamau yn gallu darparu'r gefnogaeth angenrheidiol a chyfyngu yn yr achosion hyn er mwyn ceisio torri'r cylch hwn.

Mae effaith y gwasanaeth i'w gweld hefyd yn y gostyngiad yn nifer yr achosion o bobl ifanc y rhoddir gwybod eu bod ar goll. Lleihaodd nifer y digwyddiadau lle hysbyswyd bod pobl ifanc dan 18 oed ar goll yn ardal Dyfed Powys tua 49% rhwng 2016-2017 a 2020-21, sy'n cyfateb i ostyngiad o dros 798 o achosion unigol o bobl ar goll. Yn ystod 2020-21, cyfeiriwyd 364 o blant a phobl ifanc yr adroddwyd eu bod ar goll at Llamau ar gyfer y gwasanaeth ôl-drafod.

Dyfarnwyd y contract hwn i Llamau ym mis Ebrill 2020 am gyfnod cychwynnol o 2 flynedd, gyda 3 opsiwn ychwanegol i ymestyn pob un am gyfnod o 12 mis.

Partneriaethau Troseddau Ieuentid

Buddsoddodd y Comisiynydd £180,000 mewn Partneriaethau Troseddau Ieuentid (YOPs) yn ystod 2020-2021, er mwyn gallu darparu gwasanaeth ymyrraeth gynnar ac atal i bobl ifanc 8-17 oed sydd mewn perygl o droseddu, gyda'r nod o leihau risg a gwella eu diogelwch a'u lles. Cyflawnir hyn drwy ymyriadau a gweithgareddau, sy'n cael eu hailadrodd ar draws y pedwar YOP, yn ogystal â'r rhai sydd wedi'u cynllunio'n unigol ar sail anghenion lleol pob cymuned.

Yn ystod 2020-2021, cafwyd 387 o atgyfeiriadau i'r YOPs, gan ddod â chyfanswm y bobl ifanc sy'n derbyn ymyriadau o ganlyniad i gronfeydd y CHTH dros y 4 blynedd diwethaf i dros 1,200.

Bu cynnydd mewn ymyriadau grwpiau arbenigol ac ymyriadau un-i-un, ochr yn ochr â gostyngiad mewn sesiynau generig mewn grwpiau wrth i ddulliau mwy penodol o ymdrin ag ymyriadau gael eu datblygu. Fel rhan o'r gwerthusiad a gynhaliwyd yn y maes hwn, bu'n bosibl dangos mai dim ond 2% o'r bobl ifanc a gafodd sesiynau atal yn ystod 2018-2019 sydd wedi mynd ymlaen i droseddu ers hynny. Bydd y gwaith hwn yn cael ei archwilio ymhellach gan Brifysgol Aberystwyth sydd wedi cynnal adolygiad o'r effaith a'r canlyniadau a gyflawnwyd o ganlyniad i fuddsoddiad y CHTH i waith YOPs. Bydd canfyddiadau'r gwaith hwn yn helpu i ddangos pwysigrwydd gwaith atal a blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol.

364 o blant coll wedi eu dargyfeirio

387 o bobl ifanc wedi eu dargyfeirio



Llamau

Imagine a World Without Homelessness



Effaith COVID-19 ar wasanaethau a gomisiynir gan CHTh

Er bod y rhan fwyaf o wasanaethau a gomisiynwyd gan y CHTh wedi gorfod dod i ben ar ddechrau'r pandemig, aethant ati'n gyflym i roi gwasanaethau o bell ar waith i alluogi cymorth parhaus i bob dioddefwr, yn enwedig gan ganolbwyntio ar y rhai a oedd fwyaf mewn perygl/agored i niwed.

Cadwodd y SCHTh mewn cysylltiad rheolaidd â'r holl wasanaethau a gomisiynir a darparodd gymorth ac arweiniad yn ôl yr angen. Rhoddodd yr holl wasanaethau ddiweddiadau rheolaidd i'r CHTh ar risg, problemau a'u pryderon drwy gydol y cyfnodau clo. Hefyd, rhannodd gwasanaethau eu cynlluniau wrth gefn. Parhaodd pob adolygiad perfformiad chwarterol i ddigwydd, a hynny o bell. Cafodd ffigurau atgyfeirio eu hadolygu a'u dadansoddi i benderfynu pa effaith yr oedd COVID-19 yn ei chael ar les staff, sut yr oedd yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau, ac a ddylid codi unrhyw bryderon ynghylch y gallu i ddarparu'r gwasanaeth.

Cysylltodd tîm y CHTh yn agos â darparwyr gwasanaethau i sefydlu gwersi allweddol a ddysgwyd ac er mwyn adrodd ar ganlyniadau o ganlyniad i'r pandemig. Rhannwyd adroddiad a oedd yn myfyrio ar y profiad o ddarparu gwasanaethau i ddioddefwyr a throseddwy'r yn

ystod COVID-19 gyda darparwyr gwasanaethau a gomisiynir yn ogystal â lluo o bartneriaid.

Tynnodd darparwyr gwasanaethau sylw at nifer o themâu, ac roedd rhai o'r pwyntiau allweddol i'w hystyried yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Dylai gwasanaethau barhau i gynnig cyfuniad o gymorth wyneb yn wyneb a digidol/o bell a asesir fesul achos, ond dylid cynnig cymorth wyneb yn wyneb i'r defnyddwyr gwasanaeth mwyaf agored i niwed/risg uchel yn unol â chanllawiau ymbellhau cymdeithasol a defnyddio cyfarpar diogelu personol priodol;
- Dylai gwersi a ddysgir drwy ffyrdd newydd a chreadigol o ymgysylltu â defnyddwyr cymorth gael eu hymgorffori wrth gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol;
- Dylai darparwyr gwasanaethau, gyda chymorth y SCHTh a Heddlu Dyfed-Powys, barhau i roi cyhoeddusrwydd, drwy'r holl lwyfannau sydd ar gael, i amseroedd agor y gwasanaeth ac argaeledd y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod clo;
- Dylai darparwyr gwasanaethau gyfleu manylion yn glir am y ddarpariaeth y gallai defnyddwyr gwasanaeth ei disgwyl yn ystod y pandemig; a
- Dylai darparwyr gwasanaethau gyfathrebu'n rheolaidd â defnyddwyr gwasanaethau presennol, gan ddarparu manylion am oedi mewn achosion llys lle bo hynny'n berthnasol.

Blaenoriaeth 3 Amddiffyn ein Cymunedau rhag Bygythiadau Difrifol

COVID-19

Roedd y sefyllfa a grëwyd gan COVID-19 yn golygu na allai'r SCHTh barhau fel arfer yn ystod 2020-2021. Er mwyn ymateb i'r argyfwng, a pharhau i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, nododd y CHTh ei feysydd ffocws:

- Sicrhau bod gan y Prif Gwnstabl ddigon o adnoddau i ymateb i'r argyfwng a'i oresgyn (**sicrhau adnoddau**);
- Sicrhau, ar ran y cyhoedd, bod yr heddlu'n ymateb mewn ffyrdd a oedd yn angenrheidiol, digonol, cymesur a moesegol (**dal i gyfrif**);
- Hwyluso gwaith partner effeithiol ymysg asiantaethau a grwpiau sy'n gweithio ym maes diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol (**gwella'r ddarpariaeth**);
- Comisiynu gwasanaethau, yn arbennig ar gyfer dioddefwyr trosedd, a rhoi grantiau ar gyfer dibenion plismona a lleihau trosedd (**diogelwch cymunedol a lleihau trosedd**); a
- Sicrhau bod gan breswylwyr y wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt i ddeall sut roedd eu gwasanaeth yn perfformio (**cysylltiad lleol**).

Mewn ymateb i'r pandemig, rhoddodd Heddlu Dyfed-Powys drefn reoli Aur, Arian ac Efydd ar waith i ddarparu arweinyddiaeth strategol, weithredol a thactegol, a chydgyssylltu ymateb yr Heddlu i COVID-19, gyda chynrychiolaeth SCHTh ar bob lefel, gan alluogi goruchwyliaeth a mewnbwn priodol lle bo angen.

Yn ogystal, cafodd CHTh ei friffio'n rheolaidd gan y Prif Gwnstabl. Roedd y sesiynau briffio hyn yn ymdrin â'r gofynion dyddiol a oedd gan Heddlu Dyfed-Powys, lefelau argaeledd staff a materion eraill a oedd yn peri pryder. Roedd y sesiynau briffio hefyd yn gyfle i gyflwyno materion gan y SCHTh, a oedd yn gofyn am ystyriaeth, er enghraifft, gwybodaeth gan y cyhoedd, partneriaid a gwasanaethau a gomisiynwyd gan CHTh.



Bu'r CHTh yn cyfarfod â'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Prif Chwip bob wythnos a châi ddiweddariadau rheolaidd gan Bennaeth Uned Cyswllt yr Heddlu yn Llywodraeth Cymru, yn ymdrin â'r ymateb ar y cyd ledled Cymru a gwaith Llywodraeth Cymru wrth ymateb i'r argyfwng. At hynny, mynychodd y CHTh gyfarfodydd wythnosol gyda Gweinidog Plismona Llywodraeth y DU.

Troseddau Gwledig

Parhaodd ein cymunedau i wynebu bygythiadau difrifol o du troseddau a digwyddiadau gwledig drwy gydol y pandemig. Nodir isod rai o'r camau allweddol a gymerwyd yn ystod 2020-2021 er mwyn blaenoriaethu'r materion hyn.


Penododd Heddlu Dyfed-Powys Ringyll Heddlu (PS) i arwain Tîm Troseddau Gwledig yr Heddlu. Dechreuodd PS Matthew Langley ei swydd newydd ym mis Mawrth 2021, ac ymunodd â'r CHTh yn ystod ei wythnosau cyntaf mewn cyfarfod partneriaeth strategol pwysig iawn a gynhaliwyd gan y CHTh. Gwahoddwyd Undebau'r Ffermwyr, Awdurdodau Lleol, Parciau Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru i ddod i'r cyfarfod er mwyn nodi ffyrdd o gydweithio i fynd i'r afael â rhai o'r heriau o ran troseddau gwledig a wynebir yn ardal Dyfed-Powys.



This afternoon Commissioner @DafyddLlywelyn chaired a strategic meeting with key stakeholders to identify collaborative opportunities to tackle rural and wildlife crime in the Dyfed-Powys area.

Read more 📖

dyfedpowys-pcc.org.uk/en/news/press-...



Cyfoeth Naturiol Cymru | Natural Resources Wales and 6 others

Rhannwyd adborth ar weithgareddau gweithredol allweddol yn ardal yr Heddlu yn ystod y cyfarfod, megis dosbarthu pecynnau SelectaDNA i ffermydd ym Mhowys a ariannwyd gan y CHTh, a bydd y trafodaethau a gafwyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Troseddau Gwledig newydd am y pedair blynedd nesaf.

Roedd datblygu prosiect Future Farms Cymru yn gam arwyddocaol yn 2020-21. Drwy'r prosiect hwn, mae Heddlu Dyfed-Powys a Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ar fenter newydd sy'n anelu at gynyddu'r nifer sy'n defnyddio technoleg ar ffermydd, gyda'r nod o leihau troseddau a'i gwneud yn haws eu canfod.

Mae dwy elfen i brosiect **Future Farms Cymru**:

(1) Annog pobl i fanteisio ar dechnoleg bresennol ar ffermydd, gan gynnwys teledu cylch cyfyng, cloeon clap a larymau i atal troseddwyd.

Sefydlwyd ffermydd peilot ledled Gogledd Cymru a Dyfed-Powys gyda chymorth Cyswllt Ffermio, lle gall cwmnïau sy'n arbenigo mewn diogelwch osod eu dyfeisiau yn rhad ac am ddim ac yna arddangos eu cynnyrch drwy wefan Future Farms Cymru.

(2) Annog pobl i fanteisio ar dechnoleg newydd fel LoRaWAN (Rhwydwaith Ardal Eang Pellter Hir).

Mae'r dechnoleg hon wedi'i chynllunio i ganiatáu i ddyfeisiau a synwryddion sydd â phŵer isel, y gellid eu gosod ar gatiu, mynedfeydd ac adeiladau fferm er enghraifft, gyfathrebu â rhaglenni sy'n gysylltiedig â'r rhyngwyd dros gysylltiadau di-wifr pellter hir.

Bydd gwefan Future Farms Cymru yn mynd yn fyw ddiwedd 2021, a bydd hefyd yn darparu adnoddau fel pecyn e-ddysgu ar ddiogelwch ffermydd, a ddarperir gan Cyswllt Ffermio, a dolenni i adnoddau ar iechyd meddwl wedi'u teilwra i'r gymuned amaethyddol.

Meddai'r Comisiynydd Dafydd Llywelyn;

"Mae'n gyffrous gweld sut mae timau Troseddau Gwledig Heddlu Dyfed-Powys a Heddlu Gogledd Cymru yn cydweithio'n llwyddiannus i fynd i'r afael â throseddau gwledig drwy Future Farms Cymru."



Seiberdroseddu a Thwyll

Yn ystod 2020-2021, parhaodd y CHTh i ariannu'n rhannol rôl hanfodol Swyddog Diogelu Twyll yn Adran Ymchwiliadau Troseddol Heddlu Dyfed-Powys, sy'n cydlynu Ymgyrch Signature a'r Protocol Bancio.

Mae **Ymgyrch Signature** yn nodi ac yn cefnogi dioddefwyr twyll sy'n agored i niwed ac yn darparu mesurau ataliol a chefnogol i amddiffyn dioddefwyr a'u diogelu rhag targedu pellach.

	2018/19	2019/20	2020/21
Cyfanswm yr Atgyfeiriadau	406	455	407

Dadansoddiad o Atgyfeiriadau 2020/2021:

Dioddefwyr Risg Uchel = 84

Dioddefwr Risg Ganolig = 116

Ymgysylltiad Uniongyrchol â'r Swyddog Diogelu Twyll = 166

Cyfanswm yr Arian a Ddygwyd = £3,351,699

Enghraifft o'r gwaith a wnaed o dan Ymgyrch Signature

- Ym mis Ionawr 2021, twyllwyd dioddefwr oedrannus, a oedd wedi colli ei gŵr yn ddiweddar ac wedi cael diagnosis o ganser, a dygwyd cynilion ei bywyd, sef swm o £103,000.
- Targedodd troseddwyd y dioddefwr dros gyfnod o amser.
- Trosglwyddodd y dioddefwr y £103,000 i gyfrifon tramor.
- Gwrthododd banc y dioddefwr ad-dalu'r colledion i ddechrau, ond yn dilyn ymgysylltiad gan y Swyddog Diogelu Twyll, cytunodd y banc i ad-dalu'r swm cyfan, gan dderbyn eu bod wedi methu yn eu dyletswydd gofal drwy ganiatáu'r trosglwyddiadau.
- Cefnogodd y Swyddog Diogelu Twyll y dioddefwr wrth weithredu mesurau amddiffynnol i'w diogelu rhag cael ei thargedu eto.

Mae'r **Protocol Bancio** yn gynllun cenedlaethol rhwng yr Heddlu a'r sector ariannol, sydd a'r nod o ganfod cwsmeriaid banc sydd yn cael eu twyllo, a'u cyfeirio at Ymgyrch Signature.

Cyfanswm yr Atgyfeiriadau = 81 achos

Arian a Arbedwyd rhag cael ei Golli = £982,431.00

Twyll rhamant

Y galw mwyaf ar amser y Swyddog Diogelu Twyll yn ystod 2020-2021 oedd lefel yr ymgysylltu sy'n ofynnol gyda dioddefwyr twyll rhamant.

Mae troseddwyd sy'n ymwneud â **thwyll rhamant** yn buddsoddi cryn dipyn o amser mewn twyllo'u targedau drwy ddulliau peirianeg gymdeithasol, gan ennyn ymddiriedaeth a chynyddu eu siawns o gael cryn dipyn o arian. Mae effaith feddyliol, emosiynol ac ariannol y math hwn o dwyll ar ddiodefwyr yn fawr ac mae angen lefelau sylweddol o ymgysylltu gan y Swyddog Diogelu i hyd yn oed argyhoeddi'r diodefwyr i ddechrau ei fod wedi'i dargedu'n droseddol.

Adroddiadau am dwyll rhamant a dderbyniwyd gan Heddlu Dyfed-Powys = 90

Colled Ariannol = £1.8miliwn


Arian a Arbedwyd rhag cael ei Golli oherwydd ymgysylltiad â'r Swyddog Diogelu Twyll = £150,000

Ym mis Mawrth 2021, rhoddodd y CHTh fewnbwn ar Seiberdroseddu a Thwyll i Lywodraeth Cymru, yng Nghyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona, lle rhoddodd wybod i'r rhai a oedd yn bresennol am y cynnydd amlwg a phryderus mewn gweithgareddau twyll a seiberdroseddu yn ystod y pandemig.

Adroddiadau Action Fraud	Nifer y diodefwyr
2017-2018	1913
2018-2019	1591
2019-2020	1946
2020-2021	3896
Cyfanswm y Colledion Gofnodwyd	
2019-2020	£7 million
2020-2021	£14.5 million

Parhaodd y CHTh a'i dîm i rannu gwybodaeth a chynghor hanfodol ar seiberdroseddu a thwyll drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a gwefan y CHTh, er mwyn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i gymunedau i helpu i'w diogelu rhag bygythiadau difrifol.

Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd y CHTh gyngor i Gynghorwyr Sir, Tref a Chymuned lleol am weithgarwch twyllodrus posibl, gan fod Heddlu Dyfed-Powys wedi gweld cynnydd sylweddol mewn seiberdroseddu o ganlyniad i'r pandemig. Mae manylion cyswllt cynghorwyr ar gael yn rhwydd ar-lein, a gall twyllwyr eu targedu'n hawdd. Roedd troseddwyd yn manteisio ar sefyllfa COVID-19 i dwyllo'r cyhoedd, a Chynghorwyr lleol yn arbennig, i drosglwyddo arian a gwybodaeth bersonol. Apeliodd y CHTh at bobl i fod yn wylidwrs, yn enwedig pan fyddant ar-lein.




Rhowch y ffôn i lawr!

Mae troseddwyd sy'n esgus eu bod yn galw o Microsoft, Norton a BT yn ceisio twyllo preswylwyr Dyfed-Powys.

Os fyddwch chi'n derbyn galwad yn dweud bod eich cyfrifiadur wedi'i heintio neu fod ganddo wallau difrifol, neu mae angen diweddarau eich meddalwedd wrthfwrws, rhowch y ffôn i lawr. Ni ddylai gweithiwr Microsoft, Norton neu BT fyth eich ffonio i ddweud hyn wrthyhch.

Troseddwyd yw'r galwyr hyn a fydd yn ceisio ennill eich ffydd drwy wneud ichi feddwl bod problem â'ch cyfrifiadur. Os fyddwch chi'n rhoi mynediad iddynt i'ch cyfrifiadur, yr ydych mewn perygl o gael arian wedi ei ddwyn o'ch cyfrif banc a chael eich cyfrifiadur wedi'i gloi.

- Peidiwch sgwrsio â nhw.
- Rhowch y ffôn i lawr.
- Rhwystrwch y rhif ffôn a ddefnyddiwyd i'ch galw.
- Dywedwch wrth eich ffrindiau a'ch cymdogion am y twyll hwn.



Heddlu Police
DYFED-POWYS

Blaenoriaeth 4 Cysylltu â Chymunedau

Cyllidebu Cyfranogol


Ym mis Chwefror 2020, cyhoeddodd y CHTh ei fod yn buddsoddi mewn dull newydd o ariannu cymunedol yn sgil diweddaru'r strwythur Plismona Bro yn 2019-2020 ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys. Mae Cyllidebu Cyfranogol yn ffordd o roi mwy o lais i gymunedau o ran sut y caiff arian ei wario yn eu hardal leol: mae cymunedau'n dylanwadu ar y penderfyniadau.

Yn 2020-2021 gwelwyd digwyddiadau Cyllidebu Cyfranogol cymunedol rhithwir llwyddiannus ar draws pob un o 14 ardal Plismona Bro'r Heddlu, lle gofynnwyd i grwpiau cymunedol sy'n gwneud cais am gyllid gyflwyno fideo yn arddangos eu

syniadau ar gyfer y prosiect.

I ddechrau, buddsoddodd y CHTh £140,000 yn y dull hwn; £10,000 ar gyfer pob ardal Plismona Bro. Llwyddodd nifer o'r Timau Plismona Bro i sicrhau arian ychwanegol gan bartneriaid a sefydliadau lleol, gan ddod â chyfanswm yr arian a oedd ar gael i £213,500, a rannwyd ymhlith dros 100 o grwpiau cymunedol.

Ym mis Ionawr 2021, cyfarfu'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl â'r holl Dimau Plismona Bro i ddiolch iddynt am weithio gyda phartneriaid lleol a grwpiau cymunedol i gynnal y digwyddiadau cyllidebu cyfranogol llwyddiannus.



Un o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn nigwyddiad **Cyllidebu Cyfranogol Llanelli** oedd **CYCA** - canolfan sy'n darparu gwasanaethau cymorth i blant, pobl ifanc a theuluoedd ledled Sir Gaerfyrddin a thu hwnt, ym meysydd iechyd a lles emosiynol, hyfforddiant, chwarae, addysg ac iechyd corfforol.

Dyweddodd Tracy Pike, Prif Swyddog Gweithredol CYCA; *"Mae CYCA yn falch iawn o dderbyn y cyllid hwn gan ein bod yn ymwybodol bod pobl ifanc yn y ward sydd angen cymorth cwnsela. Byddant yn dangos arwyddion o orbryder neu iselder ac mae angen gwasanaethau arbenigol arnynt i roi strategaethau iddynt ddysgu sut i leddfu eu anhwylderau eu hunain. Heb y cymorth hwn, gall arwain at hunan-niweidio, a chamddefnyddio sylweddau neu alcohol. Mae ein gwaith yn ataliol."*

Yn nigwyddiad Cyllidebu Cyfranogol Hwlfordd, sicrhawyd cyllid gan **Ysgol Uwchradd VC Hwlfordd** i ddatblygu gorsaf radio newydd.

Dyweddodd Aurelia Gardner, cydlynnydd Lles yn yr Ysgol; *"Bydd y prosiect yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gymryd rôl arweiniol a datblygu eu doniau. Bydd myfyrwyr yn cael cyfrifoldeb a pherchnogaeth dros Radio Ysgol Uwchradd Hwlfordd ac am goreograffu cynyrchiadau. Bydd cyflawniadau'n cael eu gwobrwyo ar yr awyr i hybu balchder, ymdeimlad o gymuned a lles a hyrwyddo perfformiadau'r myfyrwyr eu hunain."*



Meddai'r Comisiynydd Dafydd Llywelyn;

"Ymrwymais i ariannu'r dull newydd hwn gan ei bod yn hanfodol bod trigolion lleol yn cael dweud eu dweud am y ffordd y caiff arian ei wario yn eu hardal. Nhw sydd yn y sefyllfa orau i weithio gyda'r heddlu, ac asiantaethau partner eraill, i nodi lle mae angen yr arian a beth fyddai o'r budd mwyaf i'r cymunedau lleol."

Cynlluniau Gwirfoddoli

Cafodd COVID-19 effaith fawr ar waith gwirfoddolwyr CHTh, ac ar draws y gwahanol gynlluniau, cafodd gweithgareddau'r gwirfoddolwyr eu hadolygu a'u haddasu'n barhaus lle bu angen.



Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd

Mae'n ofyniad statudol i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau gael Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd. Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn rhoi sicrwydd annibynnol y caiff unigolion a gedwir yn y ddalfa eu trin yn briodol ac yn deg gan Heddlu Dyfed-Powys.

Ar ddechrau'r pandemig, ataliwyd ymweliadau corfforol yr Ymwelwyr Annibynnol â dalfeydd ar draws ardal yr Heddlu am gyfnod o amser, er mwyn diogelu lles yr Ymwelwyr, y staff a'r carcharorion yn y dalfeydd.

Roedd y cynllun yn cael ei adolygu'n barhaus i sicrhau bod archwiliadau lles yn cael eu hailgyflwyno'n ddiogel. Ym mis Awst 2020, dechreuodd Ymwelwyr Annibynnol ffonio dalfeydd i siarad â'r carcharorion, ac ym mis Medi 2020, cyflwynodd y Cynllun broses i ddychwelyd yn raddol i ymweliadau corfforol. Drwy gydol y flwyddyn, addaswyd arferion, yn dibynnu ar sefyllfa COVID-19 mewn ardaloedd lleol. Gwelodd rhai ardaloedd gyfnod hwy o ymweliadau drwy alwadau ffôn, er enghraifft, cyn i ymweliadau corfforol aildechrau.

23 Ymwelydd Annibynnol

91 o alwadau ffôn i ddalfeydd

14 o ymweliadau corfforol â dalfeydd

201 o garcharorion yn y ddalfa yn ystod galwadau/ymweliadau

31 o garcharorion wedi siarad ag Ymwelwyr

5 o garcharorion wedi'u gweld gan Ymwelwyr

Mae nifer y carcharorion sy'n derbyn galwad ffôn gan Ymwelydd Annibynnol yn llawer is na'r rhai sy'n barod i weld Ymwelydd yn bersonol, felly, bydd y sefyllfa'n cael ei monitro a'i hadolygu hyd at 2021-22.

I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, a'r materion a godir gan garcharorion, ewch i wefan y CHTh:

<https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-swyddfa/cynlluniau-gwirfoddoli/ymwelwyr-annibynnol-ar-ddalfa/>





Cynllun Lles Anifeiliaid

Mae Ymwelwyr Lles Anifeiliaid y CHTh yn cadarnhau lles cŵn yr heddlu sy'n ymwneud â gwaith yr heddlu, a chyflwr y manau lle mae'r cŵn yn byw a lle cânt eu hyfforddi, eu cludo a'u danfon i weithio.

7 o Ymwelwyr Lles Anifeiliaid

13 o ymweliadau â Thrinwyr Cŵn

22 o gŵn wedi cael ymweliad



Ar ddechrau'r pandemig, ataliwyd yr ymweliadau â Thrinwyr Cŵn Heddlu Dyfed-Powys a'u cŵn heddlu am gyfnod er mwyn diogelu lles y gwirfoddolwyr a'r Thrinwyr Cŵn. Er gwaethaf hyn, cynhaliwyd 13 o ymweliadau yn ystod 2020-2021, ac yn galonogol, ni chodwyd unrhyw bryderon.

Dywedodd y CHTh Dafydd Llywelyn;

"Mae fy ngwirfoddolwyr yn chwarae rhan bwysig wrth fy helpu i gyflawni fy ngweledigaeth a nodir yng Nghynllun yr Heddlu a Throsteddu. Yn y cyfnod digynsail hwn, nid oedd nifer o'm cynlluniau'n gallu cyflawni eu dyletswyddau arferol. Fodd bynnag, rwy'n ddiolchgar i bob unigolyn am barhau i ymgysylltu â'r Swyddfa a'u hymrwymiad dros y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod y cyhoedd yn parhau i fod yn ddiogel ac yn hyderus. Roedd yn bleser cwrdd â nhw yn ystod Wythnos y Gwirfoddolwyr."



Panel Sicrhau Ansawdd

Mae'r 11 aelod o Banel Sicrhau Ansawdd CHTh yn craffu ar ansawdd cyswllt yr Heddlu â'r cyhoedd, mewn modd tryloyw ac annibynnol. Mae eu gweithgarwch craffu yn cefnogi gwelliannau o fewn yr Heddlu. Dysgwch fwy am eu gweithgareddau yn ystod 2020-2021 o dan 'Llywodraethu a Chraffu'.

Llysgenhadon Ieuentid

Parhaodd y CHTh i ymgysylltu â'i Llysgenhadon Ieuentid drwy gydol y pandemig, a chydweithiodd ar rai gweithgareddau allweddol i bobl ifanc er nad oeddent yn gallu cyfarfod wyneb yn wyneb.

Bwrdd Atebolrwydd Plismona

Gwahoddodd y CHTh y Llysgenhadon Ieuentid i fynychu un o gyfarfodydd y Bwrdd Atebolrwydd Plismona (cyfarfod cyhoeddus rheolaidd lle mae'r CHTh yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif) a oedd yn canolbwyntio ar Ieuentid. Llwyddwyd i gyflwyno ymholiadau a materion yn uniongyrchol gyda'r Prif Gwnstabl ac uwch swyddogion Heddlu Dyfed-Powys.

Llysgenhadon Newydd

Ym mis Hydref 2020, croesawyd nifer o Llysgenhadon Ieuentid newydd i'r Fforwm Ieuentid, ac mae'r CHTh yn awyddus i gynyddu nifer y Llysgenhadon Ieuentid ymhellach yn 2021-2022. Mae tîm y CHTh yn gweithio i sicrhau bod y Fforwm Ieuentid yn cynrychioli'r cymunedau ifanc amrywiol y mae'n eu cynrychioli.

Siarter Hawliau Plant

Yn unol â gwaith y Fforwm Ieuentid, mae'r CHTh yn awyddus i hyrwyddo hawliau plant. Gan symud i mewn i 2021-2022, mae tîm y CHTh yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr o Heddlu Dyfed-Powys, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, i ddatblygu Siarter Hawliau Plant ar y cyd. Mae gwaith cynllunio'n mynd rhagddo wrth ddatblygu siarter ranbarthol, a bydd ymgysylltiad cydweithredol â phobl ifanc yn digwydd yn ystod 2021-2022.

Fideo Hyfforddi – Profiad Pobl Ifanc o Gyswllt yr Heddlu

Cefndir: Yn dilyn Cynhadledd Ieuentid 2020 y CHTh, cyfarfu'r CHTh â'i Llysgenhadon Ieuentid i drafod canfyddiadau gwaith ymchwil, a gynhaliwyd gan Hafan Cymru mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a edrychodd ar farn pobl ifanc am blismona, troseddu a lles yn ardal Dyfed-Powys. Penderfynwyd y byddai'r Llysgenhadon Ieuentid yn gweithio ochr yn ochr â thîm CHTh i ddatblygu ffilm fer ar gyfer tîm Dysgu a Datblygu Heddlu Dyfed-Powys, gan bortreadu profiad pobl ifanc o gyswllt â'r heddlu.

Yr hyn y gofynnwyd i'r Llysgenhadon Ieuentid ei wneud: Ymgysylltodd y Llysgenhadon Ieuentid â phobl ifanc ar draws yr ardal i ddod o hyd i unigolion a oedd yn fodlon cymryd rhan yn y prosiect a rhannu eu profiadau, ac roeddent yn hynod lwyddiannus.

Canlyniad: Bydd y ffilm yn cael ei throsglwyddo'n swyddogol i Heddlu Dyfed-Powys gan y Llysgenhadon Ieuentid yn haf 2021, a bydd yn cael ei defnyddio fel adnodd dysgu ar gyfer

rhaglenni hyfforddi'r heddlu o fewn yr Heddlu. Mae'n cynnwys tri pherson ifanc lleol yn rhannu eu profiadau, yn ogystal ag arweiniad gan unigolion o Pobl yn Gyntaf Sir Benfro ar sut y gall pobl ifanc ag awtistiaeth neu anghenion dysgu ychwanegol ymateb yn wahanol pan fydd un o swyddogion yr heddlu'n dod atyn nhw.



Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr

Drwy'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr (VEF), mae'r SCHTh yn gweithio gyda Phartneriaid Cyfiawnder Troseddol i sicrhau bod llais dioddefwyr yn cefnogi'r gwaith o graffu ar y gwasanaethau a ddarperir i ddiodefwyr. Yn ystod 2020-2021 dechreuodd tîm y CHTh waith ymgysylltu hanfodol â diodefwyr, drwy'r VEF: Er mwyn cynnwys y rhai y mae troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio arnynt mewn gweithgareddau ymgysylltu ystyrlon ac effeithiol; er mwyn rhoi cyfle iddynt rannu barn ar wasanaethau diodefwyr drwy'r system cyfiawnder troseddol.

Mae Cronfa Ddata Dioddefwyr yn eistedd ochr yn ochr â'r VEF, a'r unigolion ar y Gronfa Ddata sy'n cael gwybod am gyfleoedd ymgysylltu. Roedd cyfleoedd ymgysylltu yn ystod 2020-2021 yn golygu y cafodd diodefwyr amser i



gwblhau arolygon ar-lein a rhoi adborth ar ddogfennau'n ymwneud â diodefwyr. Bydd cyfleoedd yn datblygu ymhellach yn 2021-2022, gyda diodefwyr yn rhoi adborth ar brosesau plismona, yn cymryd rhan mewn trafodaethau ar-lein, ac yn rhannu profiadau personol o fod yn ddiodefwyr.

Isod ceir rhai o'r themâu pwysig a ystyriwyd gan y VEF, gweithgareddau a gynhaliwyd, ac yn bwysig, canlyniad y gweithgareddau ymgysylltu a gwaith parhaus i gyflawni canlyniadau.

THEMA: Pecyn Gwybodaeth i Ddiodefwyr (VIP) Heddlu Dyfed-Powys

Cefndir:

Rhoddir y VIP i bob unigolyn sy'n cysylltu â Heddlu Dyfed-Powys fel diodefwyr trosedd. Mae'n esbonio beth fydd yr heddlu ac asiantaethau eraill yn ei wneud i ddiodefwyr, a pha fesurau sydd ar gael i'w helpu i wella ar ôl eu profiad.

Yr hyn y gofynnwyd i ddiodefwyr ei wneud:

Adolygu'r VIP oedd newydd ei ddiweddarau; i weld a oedd yr holl wybodaeth berthnasol wedi'i chynnwys, ac a oedd yn hawdd ei ddilyn a'i ddeall.

Canlyniad:

Cafwyd adborth manwl, craff ac amhrisiadwy. Lluniodd tîm y CHTh adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys. Y prif argymhelliad oedd i Heddlu Dyfed-Powys adolygu'r Pecyn, gan gynnwys diodefwyr yn y broses.

Canlyniad:

Sefydlwyd Gweithgor i ddatblygu'r adolygiad o'r Pecyn, a oedd yn cynnwys Swyddogion Heddlu Dyfed-Powys a Rheolwr Gwasanaeth Dioddefwyr a Thystion Goleudy yn gweithio ochr yn ochr â diodefwyr (drwy ddulliau rhithwir) o'r VEF ac aelodau o Banel Sicrhau Ansawdd CHTh. Mae fersiwn newydd o'r Pecyn bellach yn cael ei ddefnyddio gan Heddlu Dyfed-Powys, ochr yn ochr â llyfryn cryno, a ddatblygwyd hefyd gan y Gweithgor.

THEMA: Gwaith Heddlu Dyfed-Powys i Wella Gwasanaethau i Ddiodefwyr

Cefndir:

Ym mis Tachwedd 2020, cynhaliwyd un o gyfarfodydd y Bwrdd Atebolwydd Plismona yn canolbwyntio ar ddiodefwyr, lle daliodd y CHTh y Prif Gwnstabl a'i dîm i gyfrif am ddarparu gwasanaethau i ddiodefwyr.

Yr hyn y gofynnwyd i ddiodefwyr ei wneud:

Gwahoddodd y CHTh aelodau VEF i ddod i'r cyfarfod, lle cawsant gyfle i ofyn cwestiynau i'r Prif Gwnstabl ac uwch swyddogion yr heddlu a oedd yn arwain ar wella gwasanaethau diodefwyr yn ardal yr heddlu.

Allbwn:

Mynychodd nifer fach o ddiodefwyr, gan ofyn cwestiynau. Rhoddwyd dau gam gweithredu i fynychwyr Heddlu Dyfed-Powys o ganlyniad i'r cwestiynau a ofynnwyd:

- (1) Trefnu cyfarfod yn benodol i aelodau VEF i gyfarfod â swyddogion Heddlu Dyfed-Powys a oedd yn arwain gwasanaethau i ddiodefwyr; a
- (2) Threfnu cyfarfod un-i-un rhwng un o'r diodefwyr a oedd yn bresennol ac uwch aelod o Heddlu Dyfed-Powys.

Canlyniad:

Cafwyd trafodaeth un-i-un, a chyfarfod ar-lein a gynhaliwyd gan y Prif Arolygydd a oedd yn arwain ar wella gwasanaethau i ddiodefwyr. Mynychodd nifer o ddiodefwyr a chafwyd trafodaethau amhrisiadwy. Canmolodd y diodefwyr eu cysylltiad â'r VEF, ac yn benodol, y cymorth yr oeddent wedi'i gael yn bersonol gan Goleudy. Arweiniodd y cyfarfod hefyd at adolygiad achos ar gyfer un o'r mynychwyr.

THEMA: Cyfiawnder Adferol

Cefndir:

Mae gan y CHTh ddyletswydd o dan God Ymarfer y Dioddefwyr i sicrhau bod diodefwyr yn gallu cael mynediad at Gyfiawnder Adferol. Nodwyd yn fewnol fod nifer atgyfeiriadau diodefwyr i'r gwasanaeth Cyfiawnder Adferol, a ariennir gan y CHTh, yn gymharol isel. Nodwyd Cyfiawnder Adferol fel mater allweddol i geisio adborth diodefwyr arno.

Yr hyn y gofynnwyd i ddiodefwyr ei wneud:

Cwblhau arolwg ar-lein ar eu profiadau a'u barn am y broses. Cafodd yr arolwg ei hyrwyddo'n gyhoeddus hefyd drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y SCHTh.

Canlyniad:

Ar ôl dadansoddi canlyniadau'r arolwg, datblygodd tîm y CHTh adroddiad manwl, ynghyd â nifer o argymhellion. Anogwyd partneriaid i roi ystyriaeth bellach i'r camau lle'r oeddent yn hysbysu diodefwyr o'r broses Cyfiawnder Adferol.

Gwaith parhaus:

Cyflwynwyd yr argymhellion i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol a'i Is-grŵp Dioddefwyr a Thystion. Gofynnwyd i bartneriaid ystyried yr argymhellion a disgwylir iddynt adrodd yn ôl i'r CHTh yn ystod cyfarfodydd cyntaf 2021-2022.

THEMA: Effaith COVID-19 ar Wasanaethau Cymorth i Ddiodefwyr

Cefndir:

Fel yr adroddwyd eisoes yn adran ‘Blaenoriaeth 2 – Amddiffyn y Rhai sy’n Agored i Niwed’ y ddogfen hon, cysylltodd tîm y CHTh yn agos â darparwyr gwasanaethau i sefydlu gwersi allweddol a ddysgwyd a’r canlyniadau a adroddwyd o ganlyniad i’r pandemig. Yn ogystal â thrafodaethau gyda gwasanaethau a gomisiynwyd, roedd tîm y CHTh am glywed yn uniongyrchol gan ddiodefwyr a oedd wedi defnyddio, neu wedi ceisio defnyddio, gwasanaethau diodefwyr yn ystod y pandemig.

Yr hyn y gofynnwyd i ddiodefwyr ei wneud:

Datblygwyd arolwg ar-lein i alluogi diodefwyr i roi adborth ar eu profiad penodol. Rhannwyd dolen yr arolwg ag aelodau VEF ac yn gyhoeddus.

Canlyniad:

Datblygodd tîm y CHTh adroddiad yn nodi canlyniadau’r arolwg a nifer o argymhellion: Sicrhau cyhoedduswydd ehangach i fanylion cyswllt ac amseroedd agor y gwasanaethau cymorth; rhoi dewis i ddiodefwyr o ran sut y maent yn cael cymorth h.y. ar-lein neu wyneb yn wyneb; a sicrhau cyfathrebu parhaus â’r diodefwyr a phartneriaid perthnasol.

Gwaith parhaus:

Mae’r adroddiad a’r argymhellion i’w rhannu â’r darparwyr gwasanaethau a restrir yn yr arolwg a’r sefydliadau y cyfeirir atynt o fewn adborth diodefwyr. Gofynnir i bartneriaid ystyried canfyddiadau sy’n ymwneud â’u gwasanaeth, a bydd cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn cael ei adrodd i’r CHTh yn 2021-2022.

Gwaith Recriwtio’r Fforwm Ymgysylltu â Ddiodefwyr

Ar ddiwedd 2020-2021, roedd tua 70 o unigolion ar Gronfa Ddata VEF. Mae gwaith recriwtio yn parhau i mewn i 2021-2022, gydag unigolion yr effeithir arnynt gan droseddu yn cael gwybod am waith y VEF

gan y CHTh a’i dîm, yn ogystal â Goleudy, Timau Plismona Bro Heddlu Dyfed-Powys a thrwy Arolygon Boddhad Ddiodefwyr Troseddau ar-lein Heddlu Dyfed-Powys. Cafodd yr arolygon hyn eu gohirio oherwydd COVID-19, ond mae system electronig awtomataidd newydd wedi’i chyflwyno ers hynny ac ychwanegwyd gwybodaeth yn cynghori unigolion y VEF.

Gweithgaredd Ymgysylltu

Yn 2020-2021 gwelwyd newid yn fformat gwaith ymgysylltu y CHTh. Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol lle mae'r CHTh a'i dim yn teithio ar draws ardal Dyfed-Powys i gwrdd wyneb yn wyneb â chymunedau lleol, roedd yn rhaid cynnal mwyafrif helaeth y gweithgareddau ymgysylltu yn ystod 2020-2021 ar-lein yn rhithiol ar lwyfannau fel Skype, Zoom a Facebook Live.

Diwrnodau Ymgysylltu â'r Gymuned

Yn draddodiadol, cynhaliai'r CHTh Ddiwrnodau Ymgysylltu â'r Gymuned unwaith y mis mewn gwahanol leoliadau ar draws ardal Dyfed-Powys, gan gyfarfod â gwahanol bartneriaid, sefydliadau a gwasanaethau a gomisiynwyd, a chynnal cyfarfodydd cyhoeddus i breswylwyr er mwyn trafod materion plismona. Fodd bynnag, roedd mesurau'r cyfnodau clo'n golygu bod yn rhaid canslo'r holl weithgareddau ymgysylltu wyneb yn wyneb â'r cyhoedd yn ystod y pandemig. Gweithiodd tîm y CHTh i nodi ffyrdd newydd ac amgen o ymgysylltu â'r cyhoedd, ac ym mis Mai 2020, cynhaliodd y Comisiynydd ei Ddiwrnod Ymgysylltu Rhithwir â'r Gymuned cyntaf, ar gyfer trigolion Sir Benfro.

Roedd y diwrnod yn cynnwys Cyfarfod Cyhoeddus drwy Zoom a chyfarfodydd rhithwir gyda Gwasanaeth

a Gomisiynwyd, Grŵp Pobl, yn ogystal â PLANED. Mae Grŵp Pobl a PLANED yn gweithio gyda phartneriaid a chymunedau yn Sir Benfro i wella ansawdd eu bywydau. Yn ddealladwy, roedd llawer o'r cwestiynau a materion a godwyd gan drigolion y Cyfarfod Cyhoeddus yn canolbwyntio ar bwerau plismona sy'n gysylltiedig â mesurau'r cyfnod clo a chyfyngiadau teithio a oedd ar waith adeg hynny. Roedd yn fuddiol felly bod y CHTh wedi gwahodd Uwch-arolygydd Heddlu Dyfed-Powys Ross Evans i ymuno ag ef, a oedd yn gallu egluro sut roedd ei staff a'i swyddogion ar draws Sir Benfro wedi ymateb i'r mesurau ar lefel weithredol.

Cynhaliwyd Diwrnodau Ymgysylltu Rhithwir tebyg ar gyfer trigolion Ceredigion, Powys a Sir Gaerfyrddin ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2020, ac ar ôl "ymweld" yn rhithwir â phob un o'r pedair sir, mabwysiadwyd dull thematig ar gyfer y ddau Ddiwrnod Ymgysylltu Rhithwir nesaf.

Diwrnodau Ymgysylltu â'r Gymuned Thematig

Tachwedd 2020

Thema: Iechyd meddwl



Gweithgareddau ymgysylltu:

Cyfarfu'r CHTh â Chomisiynydd Iechyd Meddwl Cymdeithas yr Heddlu a Throsedd, Matthew Scott ac Arweinydd Iechyd Meddwl Heddlu Dyfed-Powys, yr Uwch-arolygydd Ross Evans, i drafod effaith pandemig COVID-19 ar iechyd meddwl a lles Swyddogion a Staff, yn ogystal â'r cyhoedd. I gefnogi Ymgyrch y Rhuban Gwyn, roedd y diwrnod ymgysylltu hwn hefyd yn cynnwys cyfarfodydd gyda sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i ddioddefwyr cam-drin domestig.

Ionawr 2021

Thema: Diogelwch ar y Ffyrdd

Gweithgareddau ymgysylltu:

Lansiodd y CHTh Ymgyrch Cymru Gyfan y 5 Marwol yn ystod y diwrnod ymgysylltu:

Ymgyrch a ganolbwyntiodd ar y pum elfen sy'n ymwneud â'r ffactorau gwrthdaro mwyaf arwyddocaol mewn gwrthdrawiadau angheuol ac anafiadau difrifol - gyrru dan ddylanwad alcohol/cyffuriau; goryrru; peidio â gwisgo gwregys diogelwch; defnyddio ffôn symudol; gyrru'n ddiotal.

Fel rhan o'r diwrnod, ochr yn ochr â chynrychiolwyr Gan Bwyll, cyfarfu'r CHTh â chynrychiolwyr cymunedol o Bowys i drafod materion a phryderon diogelwch ar y ffyrdd mewn rhannau penodol o'r sir. Cynhaliodd y CHTh sesiwn 'Sgwrs y Comisiynydd' hefyd; Darllediad Facebook byw lle ymunodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Mark Travis o Heddlu De Cymru, yr Arweinydd Strategol ar gyfer Plismona'r Ffyrdd yng Nghymru, a Teresa Ciano, Rheolwr Partneriaeth Gan Bwyll.



Meddai'r Comisiynydd Dafydd Llywelyn;

“Fel aelod etholedig o'r cyhoedd, rwy'n cynrychioli llais y cyhoedd, ac o'r herwydd, rwy'n awyddus i sicrhau fy mod yn parhau i ymgysylltu â'r cymunedau mor aml ag y gallaf fel bod eu llais yn cael ei gynrychioli - yn enwedig yn ystod y cyfnod digyngsail hwn. Roedd yn wych ein bod, ym mis Mai, wedi gallu ailgychwyn rhai gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned o'r diwedd gyda chyfres o ddiwrnodau 'rhithwir' i ymgysylltu â'r gymuned.”



mwyn cymharu sut y newidiodd eu dealltwriaeth a'u hymwybyddiaeth o'r drosedd o ganlyniad i'r mewnbynnau.

Ymunodd siaradwyr gwadd o Race Council Cymru, Fforwm Ieuenctid BAME Race Council Cymru, Victim Support, a Heddlu Dyfed-Powys â'r CHTH. Mynychodd nifer o bobl ifanc, a oedd, ynghyd â'r sefydliadau partner, yn awyddus i weithio i fynd i'r afael â throseddau casineb ac i godi ymwybyddiaeth o'r drosedd.

C1 Rwy'n gwybod beth yw trosedd casineb

	Dechrau'r webinar	Diwedd y webinar
Ydw	84%	100%
Nac ydw	0%	0%
Ansicr	16%	0%

Sgwrs y Comisiynydd

Lansiodd y Comisiynydd ei sesiynau 'Sgwrs y Comisiynydd' ym mis Hydref 2020 fel ffordd ychwanegol o ymgysylltu â'r cyhoedd, partneriaid a chynrychiolwyr cymunedol allweddol. Roedd y sesiynau ar ffurf sgysiau anffurfiol rhwng y CHTH a'i westai/gwesteion, lle buont yn trafod maes gwaith y gwestai, gan rannu gwybodaeth bwysig gyda'r gwylwyr. Yn ystod y sesiynau, gallai gwylwyr bostio cwestiynau wrth ochr y darllediad byw, a gâi eu hystyried gan y CHTH a'i westai, a thîm y CHTH y tu ôl i'r llenni.

Cynhaliodd y CHTH sgysiau gyda Phrif Swyddogion ac uwch swyddogion gweithredol o Heddlu Dyfed-Powys, yn ogystal â Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, cynrychiolwyr o wasanaethau a gomisiynwyd a gwasanaeth Caplaniaid yr Heddlu, ac arbenigwyr pwnc fel rhan o ddyddiau â thema.

Gweminar Troseddau Casineb

Ym mis Hydref 2020, fel rhan o Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb, cynhaliodd y CHTH webinar Zoom i bobl ifanc, gan gynnwys ei Lysgenhadon Ieuenctid. Canolbwyntiodd y webinar ar nodi'r gwahanol fathau o droseddau casineb a sut y gallant waethygu i droseddau, sut i ymyrryd ac adrodd am drosedd casineb, a'r gwaith gan sefydliadau ac ymgrychwr i atal a chodi ymwybyddiaeth o droseddau casineb.

Cynhaliodd tîm y CHTH arolwg byw byr ar Droseddau Casineb ar ddechrau'r digwyddiad, a ailadroddwyd tua diwedd y digwyddiad, er

C2 Rydw i wedi dioddef a/ neu weld trosedd casineb

	Dechrau'r webinar	Diwedd y webinar
Ydw	61%	96%
Nac ydw	13%	0%
Ansicr	26%	4%

C3 Rwy'n gwybod sut i adrodd am drosedd casineb

	Dechrau'r webinar	Diwedd y webinar
Ydw	19%	35%
Nac ydw	61%	61%
Ansicr	19%	4%

C4 Rydw i'n gwybod ble i fynd a ble i gael cymorth pe bawn i'n dioddef trosedd casineb:

	Dechrau'r webinar	Diwedd y webinar
Ydw	45%	91%
Nac ydw	10%	0%
Ansicr	45%	8%

Gweithgarwch Ymgynghori

Fel gyda gwaith ymgysylltu'r CHTh, roedd gweithgarwch ymgynghori hefyd yn edrych ychydig yn wahanol yn 2020-2021. Roedd yn rhaid cwblhau popeth ar-lein.

Fodd bynnag, yn ystod 2020-2021, gofynnodd y CHTh am farn ac adborth cymunedau lleol ar nifer o faterion plismona, gan ei bod yn bwysig bod y CHTh yn parhau i gynrychioli cymunedau lleol wrth wneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau plismona lleol:

- Gosod Praesept yr Heddlu ar gyfer 2021-2022;
- Datblygu'r Ganolfan Blismona a'r Ddalfa newydd yn Llanelli;

- Y broses Cyfiawnder Adferol (gweler 'Blaenoriaeth 2 – Amddiffyn y Rhai sy'n Agored i Niwed'); a
- Sut effeithiodd COVID-19 ar wasanaethau dioddefwyr (gweler 'Blaenoriaeth 2 – Amddiffyn y Rhai sy'n Agored i Niwed').

Ymgynghoriad ar Braesept yr Heddlu


Nod: Cael gwybod faint y byddai trigolion a trethdalwyr busnes yn fodlon ei dalu bob mis tuag at eu gwasanaethau plismona lleol, i gynorthwyo'r CHTh i wneud penderfyniadau.

Methodoleg: Datblygwyd arolwg ar-lein gan ddefnyddio Survey Monkey, er mwyn galluogi trigolion a pherchnogion busnes i rannu eu barn yn hawdd. Cynhaliwyd yr arolwg am 4 wythnos, o ddydd Llun 7 Rhagfyr 2020 i ddydd Sul 3 Ionawr 2021, ac fe'i dosbarthwyd yn eang i sicrhau bod cynifer o breswylwyr a trethdalwyr busnes â phosibl yn gallu rhannu eu barn:

- Rhoddwyd datganiad i'r wasg ar wefan y CHTh a'i rannu â nifer o sefydliadau yn y cyfryngau;
- Trefnwyd negeseuon cyfryngau cymdeithasol rheolaidd gyda dolenni i'r arolwg;
- Anfonodd y CHTh lythyrau'n uniongyrchol at gynrychiolwyr cymunedol allweddol - Aelodau Seneddol Lleol a'r Senedd, a Chynghorwyr Sir, Tref a Chymuned;
- Anfonodd y CHTh lythyrau at berchnogion busnes drwy Safonau Masnach a Siambrau Cymru a gofynnwyd iddynt eu dosbarthu yn eu cymunedau busnes;
- Gofynnwyd i Swyddogion Ymgysylltu Timau Plismona Bro Heddlu Dyfed-Powys rannu'r arolwg yn eu cymunedau;
- Gofynnwyd i wirfoddolwyr a Llysgenhadon Ieuencid y CHTh, yn ogystal â Phanel yr Heddlu a Throseddau ac aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio, gwblhau'r arolwg a'i rannu'n ehangach yn eu cymunedau;

- Gofynnwyd i sefydliadau partner gwblhau a rhannu'r arolwg - darparwyr gwasanaethau a gomisiynir, Rheolwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol, a chynghorau lleol a byrddau iechyd; ac
- Anfonodd y CHTh neges at holl danysgrifwyr System Negeseuon Cymunedol Heddlu Dyfed-Powys, yn gofyn iddynt hwythau gwblhau a rhannu'r arolwg.
- Roedd copïau papur o'r arolwg ar gael ar gais ac roedd staff y SCHTh ar gael i gynorthwyo unigolyn drwy'r arolwg, gan ei gwblhau ar ei ran, dros y ffôn.

Ymateb: Cwblhaodd 614 o breswylwyr a threthdalwyr busnes yr arolwg. Nododd hanner ymatebwyr yr arolwg y byddent yn fodlon talu £2 y mis yn ychwanegol tuag at eu gwasanaethau plismona lleol.



Canlyniad: Cafodd y canlyniadau a'r sylwadau a gyflwynwyd mewn perthynas â pham y byddai'r ymatebydd yn dymuno neu'n dymuno peidio talu swm ychwanegol tuag at ei Braesept Heddlu, eu hystyried gan y CHTh wrth wneud ei gynnig ar gyfer pennu lefel Praesept yr Heddlu.

Datblygiad Hwb Plismona a Dalfa Sir Gaerfyrddin – Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio

Nod: Roedd yr ymgynghoriad yn rhoi cyfle i'r rhai a allai fod â diddordeb yn y cynigion datblygu weld y pecyn cais drafft, mynegi eu barn, a chodi ymholiadau mewn perthynas â'r datblygiad newydd arfaethedig.

Methodoleg: Roedd Asbri Planning, yr ymgynghorwyr cynllunio, yn cydlynu prif elfen yr ymgynghoriad cyhoeddus, lle'r oedd dogfennau ymgynghori cynllunio, cynlluniau adeiladu arfaethedig a dogfennau ategol ar gael ar-lein ac ar gais. Yn ogystal â hyn, ym mis Mai 2020, cynhaliodd y CHTh gyfarfod cyhoeddus, a gynhaliwyd drwy fideo gynadleda, gan roi cyfle i breswylwyr a chynrychiolwyr cymunedol godi cwestiynau ynghylch y datblygiad.

Gwahoddodd y CHTh y Prif Arolygydd Richard Hopkin, arweinydd gweithredol Heddlu Dyfed-Powys ar yr adeilad newydd, ei Gyfarwyddwr Ystadau, Heddwyn Thomas, a chynrychiolwyr o Asbri Planning, i sicrhau bod y bobl berthnasol yn bresennol i ddarparu'r wybodaeth berthnasol.

Ymateb: Daeth cynrychiolwyr cymunedol lleol i'r cyfarfod cyhoeddus, gan godi ymholiadau mewn perthynas â'r cynlluniau ond hefyd am yr effaith y byddai'r datblygiad newydd yn ei chael ar orsafoedd heddlu lleol presennol a gwelededd yr heddlu yng nghanol tref Llanelli.

Canlyniad: Ystyriwyd trafodaethau gan Heddlu Dyfed-Powys ac Asbri Planning wrth fwrw ymlaen â'r datblygiad.



5. Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Gweithio Ystwyth

Yn 2020, bu'n rhaid i lawer o sefydliadau weithredu ffyrdd amgen o weithio, ac nid oedd y SCHTh yn eithriad. Drwy gydol y flwyddyn, gweithiodd y rhan fwyaf o aelodau staff y SCHTh o gartref, gan weithio'n effeithlon i gefnogi'r CHTh i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, gan gynnal lefel uchel o wasanaeth i'r cyhoedd a phartneriaid.

Gan ddysgu o brofiad COVID-19, datblygodd y SCHTh dull doethach o weithio, a fydd yn parhau hyd at 2021-2022: Dull sy'n annog gweithio ystwyth lle mae staff yn parhau i weithio o bell, yn ogystal â defnyddio system "desgiau poeth" yn y swyddfa. Gostyngodd y SCHTh ei hun o ran maint yn ystod y cyfnod hwn, gan ddarparu 30% o'i swyddfeydd i Wasanaeth Ambiwlans Cymru.

Arweiniodd llai o staff yn gweithio yn y SCHTh ym Mhencadlys yr Heddlu at leihad sylweddol yn ôl troed carbon y swyddfa. Gwariodd y SCHTh lai ar drydan, defnyddiwyd llai o bapur ar gyfer argraffu, teithiodd aelodau'r staff lai i'r gwaith ac oddi yno, a chynhaliwyd y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd yn rhithwir.



Cyfanswm costau'r pencadlys 2019-2020

£447,657

Cyfanswm costau'r pencadlys 2020-2021

£340,034



Gostyngiad o **£107,623**

Gweithgor Cynaliadwyedd

Cynyddodd Gweithgor Cynaliadwyedd y SCHTh ei weithgarwch yn ystod 2020-2021, gan gydweithio â sefydliadau partner i leihau ôl troed carbon cyffredinol Heddlu Dyfed-Powys a'i effaith ar yr amgylchedd. Mae Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan yn weithredol ym Mhencadlys HDP yng Nghaerfyrddin, gydag 11 safle arall yn yr arfaeth ar gyfer gosod pwyntiau gwefru. Yn ogystal, sicrhawyd Grant Datgarboneiddio gwerth cyfanswm o £879k gan Salix Finance. Bydd y gwaith hwn yn symud ymlaen i 2021-2022, ac yn ein galluogi i ddatblygu Heddlu Dyfed-Powys ymhellach yn sefydliad sy'n ystyriol o'r amgylchedd, gan gefnogi'r camau i leihau effaith newid yn yr hinsawdd. Bydd yr arian yn cyfrannu at oleuadau LED, inswleiddio lloriau uchaf ac uwchraddio'r System Rheoli Ynni i enwi rhai.

Meddai'r CHTh Dafydd Llywelyn:

"Fel sefydliad, mae'n bwysig ein bod yn parhau i nodi ffyrdd o gymryd camau pellach sy'n ystyriol o'r amgylchedd i leihau ein hól troed carbon, lleihau'r defnydd o danwydd, a hefyd profi manteision ynni adnewyddadwy. Edrychaf ymlaen at weld y gwaith uwchraddio effeithlonrwydd ynni sy'n cael ei wneud yn ein hystadau drwy gyllid Cyllid Salix"





Tryloywder

Ym mis Chwefror 2021, dyfarnwyd y Marc Ansawdd Tryloywder i'r SCHTh: Arwydd o safonau uchel mewn perthynas â thryloywder strwythurau llywodraethu a chyhoeddi gwybodaeth. Bob blwyddyn, mae CoPaCC (Cymharu Comisiynwyr Heddlu a Throsedd), arbenigwyr llywodraethu'r heddlu, yn adolygu gallu Comisiynwyr Heddlu a Throsedd i fodloni eu cyfrifoldebau tryloywder statudol. Yn ystod mis Tachwedd 2020 a mis Ionawr 2021, aseswyd gwefan SCHTh gan "siopwr dirgel" a adolygodd wefan y SCHTh i bennu sut yr ydym yn cyflawni ein dyletswyddau statudol ar gyfer tryloywder, fel yr amlinellir yng Ngorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodol) 2011. Ar ôl cael y Marc Ansawdd Tryloywder am y drydedd flwyddyn yn olynol mae'r SCHTh wedi profi ei fod yn darparu gwybodaeth glir, gyson ac amserol; gan arddangos ymrwymiad parhaus tuag at dryloywder.



Safonau'r Gymraeg

Parhaodd y SCHTh i weithio'n agos â HDP i sicrhau cydymffurfiaeth â Mesur y Gymraeg 2011, gyda chynrychiolydd o'r Swyddfa'n mynd i gyfarfodydd chwarterol "Yr Iaith ar Waith" HDP er mwyn deall lefelau cydymffurfiaeth yr Heddlu.

Mae holl swyddi gwag y SCHTh yn cynnwys y gallu i siarad Cymraeg fel cyrhaeddiad dymunol, a chynigir cyfle i'r holl staff fynychu gwersi Cymraeg. Ar hyn o bryd mae 42% o'r tîm yn hyderus yn siarad drwy gyfrwng y Gymraeg, gan sicrhau, os yw rhywun yn dymuno cyfathrebu â'r SCHTh yn Gymraeg, ein bod yn gallu llwyr fodloni'r cais.

Roedd pandemig COVID-19, a rheoliadau dilynol llywodraeth Cymru, yn golygu bod nifer o gyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynnal drwy lwyfannau rhithwir. Defnyddiodd y SCHTh lwyfannau a oedd yn galluogi cyfieithu ar y pryd er mwyn bodloni Safon y Gymraeg.



Hapus i gyfathrebu'n Gymraeg neu'n Saesneg
Happy to communicate in Welsh or in English

Meddai'r CHTh Dafydd Llywelyn;

"Mae bod yn agored ac yn dryloyw yn elfen allweddol o rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ac yn rhywbeth yr wyf fi a'r Swyddfa yn ei gymryd o ddifrif."



6. Llywodraethu a Chraffu

Trefniadau Llywodraethu

Cynlluniwyd trefniadau llywodraethu i sicrhau atebolrwydd priodol, i annog gwell penderfyniadau ac i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, gan arwain at ganlyniadau da i'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau.

Yn ystod 2020-2021, parhaodd y CHTH i gyflawni ei rôl graffu drwy'r Bwrdd Plismona a'r Bwrdd Atebolrwydd Plismona, cyfarfodydd sy'n caniatáu i'r CHTH a'r Prif Gwnstabl arfer eu priod rolau mewn modd tryloyw.

Y **Bwrdd Plismona**, yw'r fforwm lle mae'r CHTH yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflwyno gwasanaethau plismona ledled ardal Dyfed-Powys. Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021, cyfarfu'r Bwrdd Plismona ar 13 achlysur; roedd blaenraglen waith yn sicrhau bod y cyfarfodydd hyn yn glynu at ffocws clir ac yn effeithiol. Mae'r Bwrdd Plismona'n mabwysiadu dull lle pob cyfarfod yn canolbwyntio ar faes busnes penodol, sy'n cael ei nodi a'i flaenoriaethu yn seiliedig ar alw gweithredol, effaith ar y gymuned a risg.

Cafodd ymateb yr Heddlu i COVID-19, yn ogystal ag ymgysylltiad â'r cyhoedd a chyfathrebu drwy gydol y pandemig, eu gosod

fel eitemau sefydlog ar yr agenda yn ystod 2020-2021. Roedd hyn yn golygu bod CHTH yn gallu ceisio sicrwydd gan y Prif Gwnstabl, ar ran y cyhoedd, o ran trefniadau'r Heddlu wrth ddelio â phandemig COVID-19. Roedd gan y CHTH oruchwyliaeth lawn o weithgareddau plismona cysylltiedig â COVID-19 drwy gydol y flwyddyn, megis gorfodi a darparu cymorth cyhoeddus yn ystod y cyfnodau clo.

Hefyd, sicrhodd y CHTH fod rhanddeiliaid cymunedol allweddol yn cael gwybod am drefniadau'r Heddlu wrth ddelio â phandemig COVID-19. Darparwyd sesiynau briffio rheolaidd i Banel yr Heddlu a Throseddau a chynhaliodd y CHTH gyfarfodydd rhithwir, ochr yn ochr â'r Prif Gwnstabl, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Senedd am y sefyllfa barhaus.











Mae'r **Bwrdd Atebolrwydd Plismona (PAB)** yn gyfarfod cyhoeddus lle ystyrir themâu a drafodwyd yn flaenorol yn y Bwrdd Plismona, yn ogystal â pherfformiad yr heddlu yn erbyn y blaenoriaethau a amlinellir yng Nghynllun Heddlu a Throseddau'r CHTH.

Roedd yn bwysig bod y Bwrdd hwn yn parhau i ymgynnull drwy gydol y pandemig, a'i fod yn parhau i hwyluso presenoldeb y cyhoedd, felly, cynhaliwyd cyfarfodydd ar-lein, ac fe'u hyrwyddwyd drwy ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Daeth aelodau Panel yr Heddlu a Throseddau i'r cyfarfodydd rhithwir, a chyhoeddodd y SCHTH wahoddiadau i grwpiau allweddol, yn dibynnu ar ffocws y cyfarfod. Er enghraifft, gwahoddwyd aelodau Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr Dyfed-Powys i fynychu cyfarfod PAB a oedd yn canolbwyntio ar ddioddefwyr, a gwahoddwyd Llysgenhadon Ieuencid CHTH i fynychu cyfarfod PAB a oedd yn canolbwyntio ar bobl ifanc.

Yn ogystal â pharhad y Bwrdd Plismona a PAB, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cynnal

Thêmâu Bwrdd Plismona

-  Hyder y cyhoedd
-  Cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd
-  Ymateb COVID-19 yr Heddlu
-  Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc
-  Cwynion
-  Moeseg
-  Cydraddoldebau
-  Adnoddau Dynol
-  Gwaith cydweithredol
-  Seiberdroseddau a thwyll
-  Troseddau gwledig

Mae cofnodion y Bwrdd Plismona ar gael ar wefan y SCHTH:

<https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-thryloywder/bwrdd-plismona/>

adolygiad o'i strwythur llywodraethu yn ddiweddar ac wedi ailsefydlu ei gyfarfodydd llywodraethu rheolaidd. Mae'r rhain yn rhoi cipolwg hanfodol i staff y CHTH ar bob agwedd ar fusnes yr heddlu, gan alluogi atebolrwydd uniongyrchol, gwaith dadansoddi gan gyfeillion beirniadol a chyfleoedd i gasglu gwybodaeth er mwyn rhoi gwybod i'r CHTH am risgiau a datblygiadau allweddol.

Gweithgarwch craffu pellach gan y SCHTh

Parhaodd gwaith craffu ehangach y CHTH i fod yn seiliedig ar risg a chanolbwyntiodd ar feysydd sydd o ddi-ddordeb / pryder sylweddol i'r cyhoedd, gan geisio amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed rhag troseddau a sicrhau bod gwasanaethau cymorth priodol yn cael eu darparu i'r rhai sy'n dioddef trosedd.

Ataliwyd cyfarfodydd ffurfiol y panel craffu am gyfnod ar ddechrau'r pandemig, gyda staff y SCHTh yn gweithio gydag aelodau i archwilio trefniadau amgen. Ailddechreuodd y Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys a'r Panel Sicrhau Ansawdd yn gymharol gyflym, gyda chyfarfodydd o bell yn cael eu cynnal drwy blatfform ar-lein diogel.

Mae **Panel Sicrhau Ansawdd** y CHTH yn rhoi cipolwg unigryw ar waith yr heddlu, o safbwynt rhywun nad yw'n arbenigwr ar y gwaith. Roedd gweithgareddau craffu yn ystod 2020-2021 yn cynnwys adolygiadau o achosion stopio a chwilio, hysbysiadau cosb benodedig COVID-19, y prosesau cyfweld ymchwiliol, ac ymchwiliadau i drais.

Drwy ei waith, parhaodd y Panel Sicrhau Ansawdd i gefnogi gwelliannau Heddlu Dyfed-Powys o ran sut y mae'n cofnodi'r defnydd o bwerau'r heddlu ac yn ystod 2020-2021, ysgogodd ei adborth welliannau i'r system TG, a dylanwadodd ar hyfforddiant swyddogion.

Mae adroddiadau'r panel ar gael ar y wefan:

<https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-thryloywder/craffu/panel-gwarediadau-y-tu-allan-i-r-llys/>

Mae'r **Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys**, a gydlynir gan y SCHTh, yn dod â chynrychiolwyr o bob rhan o'r sector cyfiawnder troseddol, gan gynnwys Llysoedd, Timau Troseddau Ieuenctid a Gwasanaeth Eryl yn

Goron, at ei gilydd. Mae aelodau'r Panel yn asesu'r defnydd o warediadau tu allan i'r llys (megis rhybuddion, datrysiadau cymunedol a gwarediadau adferol ieuencid) gan Heddlu Dyfed-Powys, yn craffu arnynt, ac yn sicrhau eu hansawdd. Maent yn cyflwyno argymhellion, rhoi adborth ar achosion unigol i swyddogion, cyfleu canfyddiadau, hyrwyddo arferion gorau a nodi anghenion posibl o ran hyfforddi neu ddatblygu polisi er mwyn i'r Heddlu neu asiantaethau eraill eu hystyried.

O fewn eu gweithgareddau craffu ar-lein yn ystod 2020-2021, adolygodd y Panel achosion o ymosodiadau cyffredin, achosion cysylltiedig â COVID-19, ac achosion o feddu ar gyffuriau rheoledig gan ganolbwyntio ar unigolion BAME a menywod dan amheuaeth ac achosion o ymosod lle achosir anaf.

Yn dilyn adborth gan y Panel, cafodd nifer o achosion eu hadolygu a'u diweddarau gyda gwybodaeth bellach yn cyfiawnhau canlyniad yr achos, ac mae atgyfeiriad a gollwyd i'r Cynllun Dargyfeiriol wedi'i gyflwyno ers hynny o ganlyniad i'r achos yn dod gerbron y Panel.

Mae adroddiadau'r panel ar gael ar y wefan:

<https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-swyddfa/cynlluniau-gwirfoddoli/panel-sicrhau-ansawdd/>

Mae'r **Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd**, yr adroddwyd arno'n flaenorol o dan 'Blaenoriaeth 4 - Cysylltu â Chymunedau', hefyd yn rhan o drefniadau sicrwydd CHTH. Yn ystod 2020-2021, parhaodd y Cynllun i fod yn rhan o'r Peilot Arsylwyr Dalfeydd Annibynnol Cenedlaethol, a oedd yn cynnwys hapsamplu cofnodion y rhai mwyaf agored i niwed yn y ddalfa, gan gynnwys plant ac unigolion â phryderon iechyd meddwl.

Cynhaliwyd y gwaith hapsamplu ochr yn ochr â'r trefniadau ymweld corfforol presennol, ac mae gallu adolygu cofnodion wedi gwella gwaith craffu'r CHTH ar ofal y carcharorion mwyaf agored i niwed. Penderfynwyd bod adolygu cofnodion o bell yn ffordd briodol a chymesur o gynnal dyletswydd oruchwylio statudol y CHTH drwy gydol y pandemig pan ohiriwyd ymweliadau. Cafodd yr adolygiadau eu cynnal gan aelod o dîm y CHTH bob pythefnos, lle'r oedd pwyntiau ffocws penodol yn cynnwys darparu Oedolion Priodol, cyfreithwyr a llety diogel i bobl ifanc. Darparwyd adroddiadau'n brydlon i

Bennaeth Dalfeydd Heddlu Dyfed-Powys a Thîm Gweithredol y CHTh, i'w hystyried a'u gweithredu yn ôl yr angen.

Roedd nifer y carcharorion yn y ddalfa yn cael ei fonitro'n ofalus a chyfathrebwyd yn rheolaidd ag arweinydd y Dalfeydd er mwyn sicrhau bod y dull yn parhau i fod yn gymesur â'r risgiau presennol. Addaswyd gweithgarwch y cynllun yn unol â hynny drwy gydol y lefelau rhybudd a'r cyfnodau clo ac erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, roedd yn braf nodi bod Cynllun hybrid yn gweithredu ar draws ardal yr Heddlu, gydag Ymwelwyr Annibynnol yn cynnal cymysgedd o alwadau ac ymweliadau dirybudd, tra bod yr SCHTh yn parhau i adolygu cofnodion o bell yn fisol.

Cwynion

O fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd, ymrwymodd y CHTh i ddarparu ymateb proffesiynol i gwynion (a chanmoliaeth) sy'n hygyrch, yn dryloyw ac yn darparu ymatebion cyflym a chymesur. Yn ogystal â chwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl, mae'r SCHTh hefyd yn ystyried anfodlonrwydd a fynegir gan aelodau o'r cyhoedd ynghylch materion amrywiol y maent wedi dod ar eu traws yn ein hardal Heddlu; cyfeirir at y rhain fel 'Pryderon Cymunedol'.

Cofnodir 'Pryderon Cymunedol' gan ddefnyddio tri phrif gategori: 'Pryderon Personol' fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, pryderon traffig neu gam-drin domestig; 'Pryderon Sefydliadol' megis anfodlonrwydd o ran TCC, cyllid/cyllidebau neu arestio; a 'Pryderon Eraill' megis pryderon lleol/cenedlaethol neu bryderon nad ydynt yn ymwneud â phlisma.

Nifer y Cwynion ar gyfer 2020-2021	
Nifer y cwynion ffurfiol yn ymwneud â'r Prif Gwnstabl	7
Nifer y cwynion a gofnodwyd yn ymwneud â'r Prif Gwnstabl	6
Nifer yr apeliadau yn erbyn y penderfyniad i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu	2
Nifer yr apeliadau a gadarnhawyd o blaid penderfyniad y SCHTh:	2
Cyfanswm y pryderon cymunedol a dderbyniwyd	291
% yr achosion caeedig a ddatryswyd o fewn 30 diwrnod gwaith	99.75%

Yn ogystal â'r uchod, derbyniodd y SCHTh 254 o ymholiadau a phryderon cysylltiedig â COVID-19 gan aelodau o'r cyhoedd a chynrychiolwyr cymunedol. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon yn ymwneud ag achosion o dorri rheoliadau a chadw pellter cymdeithasol, yn ogystal ag ymholiadau am gyfyngiadau teithio.

Diwygio Cwynion

Ers mis Chwefror 2020, os caiff cwyn unigolyn ei chofnodi o dan Atodlen 3 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 a bod yr unigolyn yn anhapus â chanlyniad ei gŵyn, gall gyflwyno cais am adolygiad i'r CHTh. Bydd yr adolygiad yn ystyried a yw canlyniad y gŵyn yn rhesymol ac yn gymesur. Yn bwysig, mae'r diwygiadau'n ceisio gwneud y system ddisgyblu'n fwy cymesur ac annog llawer mwy o bwyslais ar ddysgu o gamgymeriadau.

Nifer yr Adolygiadau ar gyfer 2020-2021	
Cyfanswm yr adolygiadau dilys a dderbyniwyd	53
Cyfanswm yr Adolygiadau a gwblhawyd	52
Cyfanswm a Gadarnhawyd	7
Cyfanswm a Gadarnhawyd yn Rhannol	5
Cyfanswm na Chadarnhawyd	40
Cyfanswm sy'n Barhaus	1
Cyfanswm y Gwersi a Ddys-gwyd/Argymhellion a nodwyd gan y SCHTh	17

Craffu ar Gwynion

Bob chwarter, mae tîm y CHTh yn adolygu data cwynion i nodi unrhyw gynnydd o ran cwynion neu nifer gyson uchel o gwynion mewn maes plisma penodol. Rhoddir ystyriaeth i waith pellach y gallai fod angen ei wneud i fynd i'r afael â phryderon ailadroddus. Gall hyn gynnwys hapsamplu a chyfeirio at y Panel Sicrwydd Ansawdd ar gyfer dadansoddiad annibynnol neu gymharu data lefel uchaf gyda heddluoedd tebyg eraill ac ati. Nod gweithgarwch hapsamplu yw craffu ar berfformiad proses rheoli cwynion yr Heddlu. Mae nifer yr achosion o gwyno yn erbyn yr heddlu a ystyrir gan Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Dyfed-Powys yn golygu y byddai'n anymarferol i'r CHTh oruchwylio pob achos,

felly mae hapsamplu yn galluogi'r Comisiynydd i gyflawni ei gyfrifoldeb goruchwyllo a monitro o dan ddeddfwriaeth.

Cynhaliwyd ymarfer hapsamplu gan y SCHTh ym mis Mawrth 2021 ynghylch achosion 'Dim Gweithredu Pellach'. Nid adolygu'r penderfyniad terfynol a wneir mewn achosion unigol yw diben hapsamplu, ond yn hytrach cynnal adolygiad cyffredinol o gydymffurfiaeth â'r weithdrefn, technegau ymdrin â chwynion a chyfiawnder naturiol er mwyn sicrhau hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu. Yn dilyn yr adolygiad o 5 achos, lluniodd y SCHTh argymhelliad y dylid darparu crynodeb o'r gŵyn yn yr e-bost/llythyr cydnabod, er mwyn sicrhau bod gan yr Adran Safonau Proffesiynol a'r achwynydd lwybr archwilio clir o ddealltwriaeth/crynodeb o'r gŵyn a gofnodwyd.

Dysgwch fwy am y broses hapsamplu, yn ogystal â chasgliadau, argymhellion yr adolygiad o achosion 'Dim Gweithredu Pellach', a'r ymateb a gyflwynwyd gan yr Adran Safonau Proffesiynol ar wefan y CHTh:

<https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-thryloywder/craffu/dip-sampling/>

Gwaith Craffu gan Banel yr Heddlu a Throseddau

Mae Panel Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys yn craffu ar waith y CHTh ac yn ei gefnogi. Drwy gydol 2020-2021, parhaodd y Panel i ddal y CHTh i gyfrif am gyflawni ei swyddogaethau statudol a'i gynnydd yn erbyn ei flaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throseddau. Mae'r Panel yn cynnwys aelodau a enwebir gan y pedwar cyngor yn ardal yr heddlu, ac o leiaf ddau aelod annibynnol.

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod panel ffurfiol yn ystod y flwyddyn, yn ogystal ag un sesiwn frifio anffurfiol gan y CHTh. Oherwydd y pandemig, cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn yn rhithwir, ond roeddent yn dal i fod ar agor i'r cyhoedd a'r wasg drwy we-ddarllediadau.



GORFFENNAF 2020

Ymateb yr Heddlu i'r pandemig, Adroddiad Blynyddol 2019-2020, a chyfrifon 2019-2020

TACHWEDD 2020

Ymddygiad gwrthgymdeithasol, ymateb yr Heddlu i'r pandemig, a pherfformiad y CHTh yn erbyn y Protocol Plismona

CHWEFROR 2021

Gosod Praesept yr Heddlu ar gyfer 2021-2022 a materion yn ymwneud â defnyddio Gwersyll Penalun ar gyfer ceiswyr lloches

CHWEFROR 2021

Buddsoddiad teledu cylch cyfyng, perfformiad CHTh yn erbyn y Protocol Plismona, a phenodi Prif Gwnstabl dros dro

Mae'r Comisiynydd yn croesawu gwaith craffu gan y Panel a heriau ganddo ac mae'n ddiolchgar iddynt am eu cyfraniadau.

Dysgwch fwy am waith Panel yr Heddlu a Throseddau yn eu Hadroddiad Blynyddol, sydd ar gael ar eu gwefan:

www.dppoliceandcrimepanel.wales

PANEL HEDDLU A
THROSEDDU DYFED POWYS

DYFED POWYS POLICE
AND CRIME PANEL



Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi

Mae Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM) yn asesu Heddlu Dyfed-Powys yn annibynnol, ac mae CHTh yn ystyried ac yn ymateb i'r asesiadau.

Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021, ymatebodd y CHTh i 9 adroddiad arolygu AHGTAEM ar wahân, ac mae pob un ohonynt i'w gweld ar wefan y CHTh:

<https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-thryloywder/perfformiad-yr-heddlu/hmic/>



Ebrill 2020

Rheoli Troseddwyd yn Integredig

Gorffennaf 2020

Cyflwr Plismona: Yr Aseiad Blynyddol o Blismona yng Nghymru a Lloegr 2019
Galwad am gymorth: Rheoli cyswllt yr heddlu drwy drin galwadau ac ystafelloedd rheoli 2018/19
Gweithio'n Galed: Cydweithio rhwng heddluoedd

Awst 2020

Archwiliad o Blismona'r Ffyrdd yng Nghymru a Lloegr

Ionawr 2021

Mechniaeth cyn cyhuddo a rhyddhau dan ymchwiliad
Uwch Gŵyn yr Heddlu – rhannu data heddlu ar gyfer dibenion mewnfudo

Chwefror 2021

Defnydd anghymesur o bwerau'r heddlu: Sbotolau ar stopio a chwilio a'r defnydd o rym

Mawrth 2021

Archwiliad o effeithiolrwydd Unedau Troseddu Trefnedig Rhanbarthol

Gofyniad Plismona Strategol

Mae gan y CHTh fandad i roi sylw i'r Gofyniad Plismona Strategol (SPR), gan sicrhau ei fod yn cael ystyriaeth briodol yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r Cynllun Heddlu a

Throseddu presennol yn cymryd sylw o'r gofynion a nodwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref, a bu'r SCHTh yn goruchwyllo gallu'r Heddlu i fodloni'r SPR drwy fynyachu Grŵp Bygythiadau Strategol yr Heddlu yn rheolaidd.

7. Cydweithio

Llywodraeth Cymru

Drwy gydol 2020-2021, parhaodd y CHTh i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a holl Gomisiynwyr a heddluoedd Cymru: perthynas a oedd yn sicr yn hanfodol yn ystod y pandemig.

Fel rhan o'r berthynas barhaus hon, mae'r CHTh yn eistedd ar **Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru**, lle mae materion sy'n benodol i blismona yn cael eu hystyried gan holl Gomisiynwyr a Phrif Gwnstablaiad Cymru, ochr yn ochr ag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru.

Roedd gan gyfyngiadau Llywodraeth Cymru i atal neu arafu lledaeniad COVID-19 oblygiadau gwirioneddol i'r gwasanaeth heddlu yng Nghymru a sicrhodd y CHTh fod buddiannau swyddogion a staff Heddlu Dyfed-Powys, yn ogystal â chymunedau lleol, yn cael eu cynrychioli'n llawn ym mhedair cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru.

Roedd yr ymateb i'r pandemig yn amlwg yn eitem bwysig iawn ar agenda'r cyfarfodydd hyn a gynhaliwyd yn rhithwir, gyda'r CHTh yn sicrhau bod ymateb yr heddlu yn dilyn yr egwyddorion canlynol: ymgysylltu, esbonio, annog a gorfodi (y pedwar E yn Saesneg, sef engage, explain, encourage, enforce). Bu'r CHTh hefyd yn lloio dros ddarparu brechlynnau i swyddogion nad oedd ganddynt ddewis heblaw parhau i gyflawni eu dyletswyddau, gan ddod â hwy i gysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd a'u hamlygu i'r feirws o bosibl.

Tynnodd y CHTh sylw at faterion fel timau gorfodi ar y cyd lle roedd asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd, gan gynnwys yr ymateb i'r ceiswyr lloches a ym Mhenalun, yn y cyfarfodydd hyn. Ystyriodd y grŵp hefyd sut fel "un gwasanaeth cyhoeddus" y bydd yr heddluoedd a phartneriaid yng Nghymru yn delio â'r heriau ehangach wrth i ni symud allan o'r pandemig.

Roedd materion pwysig eraill a drafodwyd yn y cyfarfodydd hyn yn cynnwys, ond nid

oeddent yn gyfyngedig o bell ffordd i: Fregusrwydd ac amddiffyn dioddefwyr; Trais yn erbyn Menywod a Merched a Thrais Rhywiol (VAWDASV); Troseddau Difrifol a Threfnedig a'r Uned Cefnogi Trais; Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol; Diogelwch Cymunedol; Cyfiawnder Troseddol a'r ôl-groniad o achosion; a Rhaglen Ysgolion yr Heddlu.

Mae'r **Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona** yn rhoi cyfle i aelodau Senedd Cymru ymgysylltu â Chomisiynwyr a Phrif Gwnstablaiad. Yn ystod 2020-2021, cynhaliwyd cyfarfodydd y Grŵp yn rhithwir oherwydd cyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol, a thynnwyd sylw'r Grŵp at y meysydd canlynol:

- Heriau Plismona yng Nghymru yn ystod y Pandemig;
- Trais a Cham-drin Domestig;
- Natur newidiol cyflenwad cyffuriau;
- Seiberdroseddu a Thwyll;
- Hil a Chynhwysiant mewn Plismona yng Nghymru;
- Effaith y Pandemig ar Weithlu'r Heddlu;
- Rôl Hanfodol Partneriaethau Lleol;
- Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru – gweithio gyda'r gwasanaethau Prawf, carchardai a llysoedd; a
- Gwaith ymyrraeth gynnar i atal troseddu a'r cylch aildroseddu.

Rydym wrthi'n ystyried y ffordd orau o ddatblygu'r Grŵp fel bod cynifer o aelodau'r Senedd â phosibl yn manteisio ar y cyfle i ymgysylltu â Chomisiynwyr a Phrif Gwnstablaiad.

Parhaodd y CHTh i gysylltu'n agos ag **Uned Cyswllt yr Heddlu (PLU)** yn ystod 2020-2021. Mae'r PLU yn gweithio i bedwar Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r pedwar Prif Gwnstabl yng Nghymru ac yn adrodd iddynt, gan ddarparu cyswllt strategol. O ddechrau'r pandemig, roedd y PLU yn hanfodol wrth gydlynio ymgysylltiad rhwng Plismona yng Nghymru ac uwch swyddogion / Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

Un Storfa Ddiogelu Unedig

Yn ystod 2020-2021, ymgwymerodd y CHTh â rôl Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer datblygu Un Storfa Ddiogelu Unedig, gan weithio ochr yn ochr ag asiantaethau partner gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Caerdydd. Diben cyffredinol Storfa Ddiogelu Cymru yw creu proses a system, sy'n cynnwys yr holl adolygiadau diogelu sector cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru. Unwaith y bydd gwybodaeth wedi'i chasglu a'i choladu, bydd hyn yn galluogi ymarferwyr i



ddefnyddio'r data. Bydd hyn yn hwyluso ac yn annog dulliau rhyngddisgyblaethol o ymchwilio ac ymyriadau ataliol yn y dyfodol.

Llwyddodd y CHTh a'i bartneriaid i sicrhau grant o £175,000 gan Lywodraeth Cymru i alluogi datblygiad a lansiad y storfa.

Plismona yng Nghymru

Drwy'r grŵp Plismona yng Nghymru, mae pob CHTh a Phrif Gwnstabl yng Nghymru yn cyfarfod bob chwarter i drafod gofynion plismona ar gyfer Cymru a materion sy'n effeithio ar drigolion ledled y wlad. Mae'r Grŵp yn ystyried sut y gallant gydweithio i atal troseddau ac amddiffyn dioddefwyr troseddau ar lefel leol, gan fodloni gofynion plismona cenedlaethol ar yr un pryd.

Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021, cyfarfu'r grŵp yn rhithwir ar bedwar achlysur. Ym mis Mehefin 2020, cynhaliodd y CHTh ei gyfarfod olaf fel Cadeirydd Plismona yng Nghymru, ac yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd, roedd y CHTh ar flaen y gad yn ymateb y grŵp i COVID-19, gan ofyn am gyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru a'u mynychu ar ran y Comisiynwyr eraill i drafod ymateb yr heddlu i'r cyfyngiadau symud.

Dywedodd y CHTh Dafydd Llywelyn;

"Roedd cyflawni'r rôl arweiniol hon ar ran Plismona yng Nghymru yn ddymunol ond yn heriol yn ystod y cyfnod presennol o argyfwng. Rwy'n falch o'r cyfraniad a wnaed gan Blismona yng Nghymru yn ystod yr ymateb i COVID-19. Rwyf hefyd yn teimlo fy mod wedi llwyddo i wella'r berthynas nid yn unig rhwng pedwar Heddlu Cymru ond hefyd â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol. Mae'n bwysig deall deinameg unigryw cael sefydliadau datganoledig a sefydliadau annatganoledig yng Nghymru ac mae'r fforwm arweinyddiaeth allweddol hwn ar gyfer Plismona yng Nghymru yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer gwell cydweithredu a datblygu hunaniaeth Plismona Cymru ar wahân."



Mae ymrwymiad i barhau i gydweithio ar sail Cymru gyfan yn amlwg o'r uchod, ac ym mis Gorffennaf 2020, yn eu Hadroddiad Sbotolau ar gydweithredu rhwng heddluoedd, cydnabu AHGTAEM ymdeimlad cryf o 'bwrpas' ac 'awydd' i wella plismona yng Nghymru drwy'r cydweithio rhwng y pedwar Heddlu a'r pedwar CHTh yng Nghymru.

Gallwch weld Adroddiad Sbotolau PEEL AHGTAEM yma:

<https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/wp-content/uploads/peel-spotlight-report-the-hard-yards-police-to-police-collaboration.pdf>



Cyd-bwyllgor Archwilio

Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn rhoi sicrwydd annibynnol i'r CHTh a'r Prif Gwnstabl ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu; fframweithiau rheoli risg, gan gynnwys adroddiadau ariannol; prosesau llywodraethu blynyddol; a chanfyddiadau archwilio mewnol ac allanol. Mae eu gwaith yn helpu i sicrhau bod trefniadau effeithlon ac effeithiol ar waith, a gall eu barnau gael eu llywio gan y gwaith craffu a wneir gan Banel yr Heddlu a Throseddau.

Yn 2020-2021 gwelwyd rhai newidiadau i aelodaeth y Cyd-bwyllgor. Daeth cyfnod Mr Alasdair Kenwright yn ei swydd i ben ym mis Rhagfyr 2020 ar ôl 21 mlynedd o gyfraniad i blismona yn ardal Dyfed-Powys. Diolch am eich gwaith.

Penodwyd aelod newydd, Ms Lynne Hamilton, i'r Panel ym mis Ionawr 2021. Yr aelodau presennol yw Malcolm MacDonald (Cadeirydd), Martin Evans, Andre Morgan, Kate Curran a Lynne Hamilton.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor yma:

<https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-thryloywder/y-cyd-bwyllgor-archwilio/>



Archwiliad mewnol

Mae cynllun archwilio cytunedig ar waith gyda'n harchwilwyr mewnol, TIAA, sy'n targedu adnoddau at feysydd risg a phryder a nodwyd gan y Prif Gwnstabl a'r CHTh. Creffir ar y Cynllun Archwilio Mewnol gan y Cyd-bwyllgor Archwilio cyn iddo gael ei gytuno, ac mae'r Pwyllgor yn ystyried canfyddiadau'r archwiliad.

Ymhlith yr Archwiliadau Mewnol a gynhaliwyd yn ystod 2020-2021 roedd; Adolygiad o Waith Gwrth-dwyll, Fetio Contractwyr, Rheoli Adnoddau Dynol, y Gyflogres, Pensiynau, Asedau Sefydlog, Rheolaethau Lliniaru Rheoli Risg, Rheoli Ystadau – Llywodraethu, ac Ymgysylltu â'r Gymuned – Llywodraethu.



Mae rhagor o fanylion am weithgarwch archwilio mewnol ar gael ar dudalen y Cyd-bwyllgor Archwilio ar ein gwefan:

<https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-thryloywder/y-cyd-bwyllgor-archwilio/>



Archwilio Allanol

Archwilio Cymru yw'r archwilwyr allanol penodedig ar gyfer y CHTh a'r Prif Gwnstabl. Bob blwyddyn, maent yn rhoi sylwadau ar yr agweddau ariannol ar lywodraethu corfforaethol, gan gynnwys cyfreithlondeb trafodion ariannol, systemau sefydlog ariannol, systemau rheolaeth ariannol fewnol a safonau ymddygiad ariannol, twyll a llygredd. Mae gan Archwilio Cymru hefyd ddyletswydd statudol hefyd i asesu'r trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau, ac ymgymrodd ag adolygiad Gwerth am Arian o drefniadau Cydweithio.

Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed-Powys yn dwyn ynghyd uwch gynrychiolwyr asiantaethau cyfiawnder troseddol sy'n gweithredu yn ardal Dyfed-Powys, i wella'r modd y sicrhau cyfiawnder a'r gwasanaeth a

ddarperir i ddiodefwyr a thystion. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob chwarter, dan gadeiryddiaeth y CHTh.

Yn ystod 2020-2021, effaith COVID-19 ar y system cyfiawnder troseddol oedd prif ffocws y Bwrdd. Nid yn unig y gwnaeth cyfyngiadau symud a chyfyngiadau pellter cymdeithasol newid y darlun o drosedd ac anhrefn, ond newidiodd hefyd y ffordd yr oedd diodefwyr yn cael eu cefnogi. Mae sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddychwelyd i'r lefelau arferol mewn Llysoedd yn hanfodol i ddiodefwyr, sef defnyddwyr terfynol ein System Cyfiawnder Troseddol yn y pen draw.

Gweithiodd y CHTh gyda phartneriaid ar lefel Cymru gyfan i ddatblygu trefniadau cydweithio brys, yn ogystal ag arwain yr ymateb lleol drwy Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed-Powys. Roedd hyn yn caniatáu i bartneriaid allweddol ddod at ei gilydd i drafod y risgiau a'r problemau a chanolbwyntio ar alluogi i gyfiawnder gael ei ddarparu yn y modd gorau posib mewn cyfnod mor ddigynsail.

Fel rhan o'r gwaith hwn, sefydlodd y CHTh Gell Adfer Diodefwyr a Thystion Dyfed-Powys a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ddechrau mis Gorffennaf 2020 i drafod y prif risgiau yn yr ardal. Cymerodd y gwaith adfer hwn gamau cadarnhaol iawn ymlaen, gyda Llysoedd Ynadon Lleol yn rhai o'r rhai cyntaf yng Nghymru i aildechrau lefelau gwasanaeth arferol ar ôl rhoi cynlluniau wrth gefn fel Llysoedd ychwanegol ar waith i sicrhau bod yr ôl-groniad llawn o achosion yn cael gwrandawriad. Roedd hyn yn gyflawniad sylweddol ac yn un a gyflwynwyd ar y cyd, er mwyn sicrhau bod busnes arferol yn aildechrau cyn gynted ac mor ddiogel â phosibl er mwyn sicrhau'r gwasanaeth a'r canlyniadau gorau posibl i ddiodefwyr.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Fel gwahoddedig statudol i bob un o'r pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws ardal Dyfed-Powys, mae'r CHTh yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau canlyniadau cadarnhaol, cynaliadwy i gymunedau. Yn ystod 2020-2021 mae'r CHTh wedi ymuno â gwasanaethau cyhoeddus ar draws ardal yr Heddlu i werthuso'r eiddo a'r ystadau a ddefnyddir ar gyfer darparu gwasanaethau, ac asesu'r potensial ar gyfer defnyddio'r safleoedd hyn ar y cyd i ddarparu mwy o opsiynau siop un stop i'r cyhoedd, ac i wella cost-effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

Hefyd, ymgysylltodd tîm y CHTh â phartneriaid o ran sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn ymgynghori ar y cyd â chynrychiolwyr cymunedol, yn enwedig pobl ifanc, i sicrhau y cyfathreber yn uniongyrchol a'u bod yn caniatáu i leisiau rhanddeiliaid allweddol a defnyddwyr gwasanaethau gael eu clywed ac y gweithredir arnynt.

Yn gysylltiedig â'r trafodaethau partneriaeth uchod ynghylch ymgynghori ac ymgysylltu ar y cyd, gwelodd 2020-2021 fuddsoddiad ar y cyd mewn swydd ymgysylltu o fewn tîm y CHTh. Mae CHTh a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ariannu rôl Cynghorydd Polisi ac Ymgysylltu o fewn y SCHTh ar y cyd. Mae'r Cynghorydd wedi ymgysylltu'n agos â chydweithwyr ymgysylltu Hywel Dda i nodi cyfleoedd ymgysylltu cydweithredol, ac mae'n parhau i wneud hynny yn 2021-2022. Yn ystod 2020-2021, er enghraifft, ymgysylltwyd ar y cyd i geisio barn pobl ifanc

am blismona, troseddu a lles yn ardal Dyfed-Powys. Darllenwch fwy am y darn hwn o waith dan 'Blaenoriaeth 4 - Cysylltu â Chymunedau'.

Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

Yn ystod 2020-2021, parhaodd y CHTh i weithio'n agos gyda Rheolwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, gan gefnogi'r pedwar Partneriaeth Diogelwch Cymunedol i ddatblygu prosiectau a oedd yn bodloni eu hamcanion diogelwch cymunedol lleol eu hunain yn ogystal â blaenoriaethau Cynllun yr Heddlu a Throseddu. Gyda'r cyllid hwn, datblygodd y Partneriaeth Diogelwch Cymunedol brosiectau megis Gweithdy i Godi Ymwybyddiaeth o hyfforddiant Prevent (WRAP) i bartneriaid, parthau dim galw diwahoddiad, a menter troseddau gwledig i leihau lladradau o ffermydd.



8. Ystadau

Yn ystod 2020-2021, nid yn unig y parhaodd tîm Ystadau ymroddedig CHTh i sicrhau ystâd blismona gosteffeithiol ac addas i'r diben, ond darparodd wasanaeth cynnal a chadw effeithiol yn effeithlon i Heddlu Dyfed-Powys i sicrhau y gallai'r Heddlu barhau i weithredu yn ystod y pandemig, gan geisio sicrhau bod ystâd yr heddlu yn cydymffurfio â rheolau COVID yn benodol.

Roedd yn rhaid iddynt sicrhau bod adeiladau'r heddlu'n parhau i fod yn weithredol a bod ein hamgylcheddau'n ddiogel ac yn hylan, gan weithredu mewn ffordd wahanol i sicrhau bod mesurau ymbellhau cymdeithasol yn cael eu bodloni.

Dyma rai o'r meysydd allweddol y gweithiwyd arnynt o ganlyniad i COVID-19:

- 1) Trwsio a phrofi systemau ac offer yn statudol;
- 2) Sicrhau safonau glanhau gwell i fynd i'r afael â feirws COVID-19;
- 3) Cadw rheolaeth stoc ar gynhyrchion glanhau gan gynnwys hylif diheintio dwylo;
- 4) Glanhau amgylcheddau'n drylwyr lle bo angen;
- 5) Monitro cyflenwadau tanwydd yn wythnosol;
- 6) Parhau â'r Swyddogaeth Arlwyo yn y Pencadlys, a chadw at reolau ymbellhau cymdeithasol;
- 7) Hwyluso ymbellhau sefydliadol i adrannau, gyda symudiadau a newidiadau, er mwyn sicrhau gwydnwch mewn meysydd busnes;
- 8) Parhau â'r Gwasanaeth Cludo, gan gludo arddangosion hanfodol rhwng gorsafoedd ac archwilwyr Fforensig; a
- 9) Chasglu a darparu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) hanfodol ar gyfer swyddogion a staff rheng flaen.

Gan gyfeirio'n ôl at bwynt 7) uchod - hwyluso ymbellhau sefydliadol - un o'r prosesau ad-drefnu mawr a ddigwyddodd oedd honno yng Nghanolfan Reoli'r Heddlu (FCC); lle cymerir galwadau 999 a 101. Yr FCC oedd yr adran gyntaf i weithredu newid cadarnhaol o ganlyniad i COVID-19. Mae llawer o swyddogaethau gwahanol sy'n hanfodol i ymgyrchoedd wedi'u

lleoli o fewn yr FCC, a bu'n rhaid cymryd camau i sicrhau pellter cymdeithasol a lles y staff oedd yn cyflawni'r swyddogaethau hanfodol hyn. Symudodd y tîm Ystadau nifer o dimau, a symudwyd yr holl staff nad oeddent yn hanfodol i ffwrdd o'r FCC er mwyn diogelu'r swyddogaethau gwahanol. Roedd y gwaith ad-drefnu hwn yn caniatáu i Heddlu Dyfed-Powys barhau i ddarparu gwasanaeth plismona effeithiol; parhau i ymateb i alwadau 999 a chyswllt nad oedd yn ymwneud ag argyfyngau.



Yn ogystal â'r uchod, mae prosiectau Ystadau eraill wedi bod yn mynd rhagddynt yn ystod 2020-2021, megis Canolfan Blismona a Dalfa Llanelli, mae hyn wedi arwain at yr argymhellid i brynu tir gan Lywodraeth Cymru yn Nafen ac aed ati i gyflwyno cais cynllunio llawn. Ochr yn ochr â hyn, mae ymchwiliadau parhaus i opsiynau ar gyfer adeiladau'r Heddlu yn Aberhonddu yn y dyfodol wedi datblygu. Bydd y ddau brosiect hyn yn cymryd adnoddau a ffocws sylweddol yn ystod 2021-2022.

Meddai Andrew Rees, Uwch Reolwr Cyfleusterau;

“Perfformiodd y tîm cyfan yn arbennig i gefnogi'r gweithgareddau hyn mewn amgylchiadau eithriadol ac maent yn parhau i ddangos eu gwydnwch a'u cefnogaeth i'w gilydd er mwyn cyflawni nod cyffredin o wasanaethu ein cymunedau gyda'i gilydd.”

9. Gwario Arian yn Ddoeth

Cyllideb 2020-2021

Ym mis Chwefror 2020, gosododd y CHTh gyllideb refeniw net o £112.909 miliwn i ddarparu gwasanaethau plismona ar gyfer cymunedau ardal Dyfed-Powys yn ystod 2020-2021.

£112.909 ar gyfer gwasanaethau plismona 2020-2021

Roedd y gyllideb hon yn tybio defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn o £0.703 miliwn i ariannu gwasanaethau o ddydd i ddydd, yn ogystal ag arbedion hyn y gellir eu troi'n arian o £1.260 i'w cyflawni ar draws nifer o fentrau gan gynnwys; strwythurau'r gweithlu, trefniadau cydweithio, datblygiadau TGCh, cynhyrchu incwm a gostyngiadau sylweddol mewn gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau a ddarparwyd drwy fentrau caffael a mentrau lleihau costau eraill.

Er mwyn bodloni'r amrywiaeth o feichiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, roedd y gyllideb yn cynnwys hyblygrwydd tybiedig y Llywodraeth o £12 ychwanegol fesul eiddo band D. Unwaith eto, Dyfed-Powys oedd â'r praecept isaf yng Nghymru.

Mae dealltwriaeth dda o raddfa'r heriau ariannol o fewn Heddlu Dyfed-Powys, ac mae Prif Swyddog Cyllid y CHTh yn gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwr Cyllid yr Heddlu i adolygu trefniadau rheoli ariannol yn feirniadol a'u datblygu.

Cydnabyddir y bydd effaith y pandemig COVID-19 ar gyllid cyhoeddus a diffygion yn gwaethygu'r pwysau hyn ymhellach yn y blynyddoedd i ddod. Roedd 2020-2021 yn flwyddyn unigryw gyda'r argyfwng cenedlaethol yn deillio o bandemig COVID-19. Roedd yr ymateb o ran plismona yn ddigynsail gan iddo addasu'n gyflym i waith gorfodi deddfwriaeth newidiol y DU a Chymru, a hynny wrth gynnal y gwasanaeth a diogelu ei weithlu.

Gweithiodd rhwydweithiau Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau (APCC) a Phrif Gyngor Cenedlaethol yr Heddlu (NPCC) yn agos gyda'r Swyddfa Gartref ar oblygiadau ariannol pandemig COVID-19, gydag adroddiadau manwl yn cael eu cyflwyno'n

fisol. O ganlyniad, cadarnhaodd y Gweinidog Plismona a'r Swyddfa Gartref grantiau penodol ychwanegol yn ystod y flwyddyn i dalu costau cyfarpar diogelu personol o safon feddygol, dwy gyfran o gyllid i gefnogi gweithgareddau gorfodi, a Chynllun Adfer Colledion Incwm i gydnabod incwm a gollwyd o ganlyniad i'r pandemig.

Daeth galw gweithredol ychwanegol ac anrhagweladwy o du'r gofynion plismona yn dilyn penderfyniad y Swyddfa Gartref i letya ceiswyr lloches yng Ngwersyll y Weinyddiaeth Amddiffyn ym Mhenalun. Oherwydd maint y costau a ragwelwyd, cyflwynodd y CHTh gais am grant arbennig i'r Gweinidog Plismona ym mis Hydref 2020. Er bod y cais yn llwyddiannus, cadarnhaodd y Gweinidog na fyddai'r trothwy o 1% yn cael ei hepgor, a olygai y byddai'r £1.129m yn cael ei ysgwyddo'n lleol, gyda dim ond y costau dros y trothwy yn cael eu talu trwy grant arbennig. Adlewyrchwyd y pwysau ariannol sylweddol hwn o fewn ein cynlluniau ariannol yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Fodd bynnag, yn dilyn y penderfyniad i gau Penalun ym mis Mawrth 2021, dywedwyd wrthym fod y Gweinidog wedi penderfynu talu'r gost yn llawn, er gwaethaf yr hysbysiad gwreiddiol uchod.

Cynllun Ariannol Canol Tymor ar gael ar wefan y CHTh:

Y Praecept a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (dyfedpowys-pcc.org.uk)

Ar ôl cyflwyno llawer o geisiadau dros y blynyddoedd diwethaf, trwy'r grŵp Plismona yng Nghymru, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021 y byddai cyllid grant ychwanegol ar gael i fynd i'r afael â'r diffygion cylchol mewn cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH).

Mae'r tabl canlynol – Datganiad Amrywiant – yn nodi'r sefyllfa alldro olaf ar gyfer 2020-2021, ochr yn ochr â'r gyllideb wreiddiol a chyllideb ddiwygiedig. Mae hyn yn adlewyrchu'r cyllidebau ychwanegol a'r symudiadau wrth gefn a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn. Adroddwyd ar y newidiadau i'r gyllideb y cyfeirir

<i>Datganiad Amrywiannau</i>	Cyllideb Wreiddiol	Cyllideb Ddiwygiedig	Gwirioneddol	Amrywiant (Cadarnhaol am Arbediad)
Deiliad y Gyllideb	£'000	£'000	£'000	£'000
Comisiynydd yr Heddlu a Throsteddu				
Costau'r Swyddfa a Chomisiynu	2,098	2,098	1,935	163
Costau Ystadau	4,099	4,099	3,833	266
Cyfanswm Costau Cyllideb Refeniw'r Comisiynydd	6,197	6,197	5,768	429
Prif Gwnstabl				
Cyfanswm - Heddlu	107,415	106,815	102,630	4,185
Gwariant Net ar ôl Trosglwyddo o Gyllid i Gronfeydd Wrth Gefn	112,909	112,909	112,909	0

Cyfanswm cyllideb y SCHTh, a oedd yn cynnwys swyddfeydd, ystadau a gwaith comisiynu gwasanaethau gan y CHTh ar gyfer 2020-2021 oedd £6,196,000.




atynt isod yng nghyfarfodydd misol y Bwrdd Plismona a Byrddau Atebolwydd Plismona cyhoeddus chwarterol a gynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r sefyllfa alldro derfynol a amlygwyd yn y Datganiad Amrywiant uchod yn adlewyrchu amrywiant cadarnhaol ar bortffolio cyllidebau'r CHTh o £429k, gyda £266k o hyn yn ymwneud â'r adran Ystadau. O fewn y ffigurau hyn mae arbedion a wireddwyd o ganlyniad i drosiant staff, rheolaeth ariannol ddarbodus, a nifer o arbedion canlyniadol sy'n codi o ganlyniad uniongyrchol i effaith ffyrdd newydd o weithio a roddwyd ar waith oherwydd pandemig COVID-19. Deilliodd arbedion sylweddol o gostau cyfleustodau is ar draws yr ystâd, incwm ychwanegol a wireddwyd o drefniadau rhannu safleoedd, gwariant is ar waith cynnal a chadw cynlluniedig ac ymatebol, ond roedd pwysau ychwanegol o ran gofynion glanhau.

Hwylusodd y sefyllfa derfynol gyffredinol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-2021 y broses

o greu nifer o gronfeydd wrth gefn newydd i gefnogi blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsteddu, Prosiectau TG Trawsnewid, yn ogystal ag ategu Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn, a fydd yn ei dro yn lleihau'r gofynion benthycu ar gyfer seilwaith TG hanfodol yn y dyfodol. Ar ddiwedd 2020-2021, cyfanswm y cronfeydd wrth gefn oedd £17.009 miliwn, a oedd yn cynnwys cronfa gyffredinol wrth gefn o £4.032m i dalu costau digwyddiadau nas rhagwelwyd a grybwyllir uchod.

Bu'r Heddlu'n ddarbodus a gofalus gydag arian dros y flwyddyn er gwaethaf rhai heriau gweithredol ac ariannol sylweddol yn ogystal â'r ansicrwydd sylweddol yn ystod 2020-2021. Roedd graddfa a chymhlethdod y materion a gododd yn ystod y flwyddyn yn ei gwneud yn heriol asesu'r sefyllfa alldro olaf yn gywir, ond roedd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn gadarnhaol iawn, gan roi Heddlu Dyfed-Powys mewn sefyllfa gryfach i ddelio â heriau ariannol yn y dyfodol.




I gael rhagor o wybodaeth am sefyllfa ariannol 2020-2021, gweler Datganiad Cyfrifon y Grŵp ar gyfer 2020-21 a gyhoeddwyd ar ein gwefan:

<https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-swyddfa/cyllid/cyfrifon-statudol/>



Cyllideb Gwasanaethau Comisiynu



Cyllideb Gomisiynu

Y gyllideb gomisiynu ar gyfer 2020-2021 oedd £1,615,708, sy'n cynnwys costau staff yn ogystal â chostau a ysgwyddwyd ar gyfer darparu gwasanaethau'n uniongyrchol. Ariannwyd £660,812 o'r gyllideb gyffredinol drwy'r Grant Dioddefwyr gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r siart yma yn dangos manylion y dyraniad hwn.

Mae Bwrdd Cynghori'r CHTH ar Gomisiynu yn cefnogi gweithgarwch comisiynu drwy weithredu fel cynghorwyr mewn perthynas â dyfarnu cyllid grant neu dendro am wasanaethau. Mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar graffu ar weithgarwch a dwyn darparwyr gwasanaethau i gyfrif. Cawsant fewnbwn da gan ddarparu gwasanaethau yn ystod 2020-2021, gan drafod effaith pandemig COVID-19, o ran eu gallu i ddarparu gwasanaethau a phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth.

Rhagolwg Ariannol

O ran y Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi wynebu heriau ariannol sylweddol ers 2010 oherwydd gostyngiadau mewn cyllid gan y Llywodraeth ganolog ynghyd â phwysau o ran costau a newidiadau parhaus yn y galw am wasanaethau plismona.

Ym mis Medi 2019, datganodd y Llywodraeth ei bod wedi "troi'r dudalen ar gynt" gyda'r Canghellor yn cyhoeddi ymrwymiad i daclo trosedd a chadw pobl yn ddiogel, gyda chynlluniau ar gyfer 20,000 o swyddogion heddlu ychwanegol.

Ym mis Gorffennaf 2020, lansiodd y Canghellor yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yr oedd mawr ei ddisgwyl ond ynghanol yr ansicrwydd economaidd a achoswyd gan bandemig COVID-19, ym mis Hydref 2020 cafwyd y cyhoeddiad mai dim ond setliad un flwyddyn dros dro fyddai'n cael ei bennu ddiwedd mis Tachwedd 2020. Dywedodd y Canghellor "Yn yr amgylchedd

presennol, mae'n hollbwysig ein bod ni'n cynnig sicrwydd ... â ffocws llwyr ar fynd i'r afael â COVID-19 a chyflwyno ein Cynllun ar gyfer Swyddi."

- Nododd y Canghellor y CSR2020 ar 25 Tachwedd 2020 a oedd yn cynnwys:
- Rhewi cyflogau'r sector cyhoeddus (ac eithrio'r GIG), ond gyda diogelwch incwm is i'r rhai sy'n ennill llai na £24,000; ac
- Ymrwymiad parhaus gan y Llywodraeth i darged Rhaglen Uplift yr Heddlu, gyda 6,000 arall i'w recriwtio yn 2021-22.

Yn amlwg, mae effaith y diffyg eglurder ac ansicrwydd parhaus yn y tymor hwy ynghylch cyllid grant craidd a phenodol yn ei gwneud yn anodd iawn cynllunio ar gyfer y tymor byr a chanolig ac mae'r APCC a'r NPCC cenedlaethol ynghyd â'u priod weithgorau yn parhau i weithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref i wneud sylwadau lle bynnag y bo modd.

Wrth amlinellu'r setliadau, cydnabu'r Ysgrifennydd Cartref a'r Gweinidog Plismona yr ymgysylltiad cynhyrchiol a gawsant â'r gwasanaeth heddlu, a roddodd ddarlun cliriach o natur newidiol y galwadau a'r galluoedd sydd eu hangen i ymateb yn gadarn i'r heriau. Talwyd teyrnged ganddynt hefyd i heddluoedd a staff yr heddlu ledled y wlad am eu dewrder, eu hymroddiad a'u gwaith caled, ac amlinellwyd bwriad i ddarparu'r adnoddau yr oedd ar y gwasanaeth eu hangen er mwyn mynd i'r afael â throseddu, delio'n gadarn â'r troseddwyr sy'n ecsbloetio pobl fregus a gwella canlyniadau i ddioddefwyr troseddau.

Nododd yr Ysgrifennydd Cartref a'r

Gweinidog Plismona grant dros dro yr heddlu ar 17 Rhagfyr 2020, gan gydnabod dewrder eithriadol yr heddlu, ei ymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus a'i gyflymder a hyblygrwydd wrth i swyddogion yr heddlu a staff ymateb i'r heriau digynsail a achoswyd gan bandemig COVID-19. Roeddent hefyd yn cydnabod y cynnydd sylweddol o ran cyflawni blwyddyn gyntaf Rhaglen Uplift yr Heddlu gyda 5,824 o swyddogion ychwanegol eisoes wedi'u recriwtio erbyn diwedd mis Medi 2020 gyda disgwyliad o gynnal y momentwm hwn.

Mae setliad 2021/2022 yn darparu cyfanswm o hyd at £15.8 biliwn ar gyfer plismona, gyda chyllid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn cynyddu hyd at £703m ychwanegol, gan gynnwys y dybiaeth ynghylch hyblygrwydd lleol i gynyddu praesept y dreth gyngor.

Y setliad grant ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys yn 2021-2022 yw £59.529m, sef £2.921m (5.2%) yn uwch na 2020-2021. Mae setliad 2021-2022 yn cynnwys o fewn ei linell sylfaen, yr arian ychwanegol i gefnogi cyfran gyntaf Rhaglen Uplift, ynghyd â grant penodol pellach wedi'i ddiogelu o £700k i gefnogi recriwtio swyddogion ychwanegol fel rhan o'r ail gyfran, a delir yn amodol ar berfformiad recriwtio. Ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys mae hyn yn cyfateb i 42 o swyddogion eraill, gyda 2 yn cael eu neilltuo i gefnogi blaenoriaethau a gwaith yr Uned Troseddau Trefnedig Ranbarthol (ROCU).

Fel yr amlinellir uchod, cyhoeddodd setliad grant yr heddlu hefyd hyblygrwydd praesept ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddau yn Lloegr o £15 fesul eiddo band D, ac mae'r prif ffigurau a gyhoeddwyd yn y datganiad i'r wasg gan y Llywodraeth wedi rhagdybio y bydd pob Comisiynydd yng Nghymru a Lloegr yn manteisio'n llawn ar yr hyblygrwydd hwn.

Wrth amlinellu ei disgwyliadau ar gyfer canlyniadau ac effeithlonrwydd, mae'r Llywodraeth wedi adlewyrchu £120 miliwn o arbedion i'w cyflawni drwy gyfuniad o arferion caffael gwell, gan gynnwys darparu £20 miliwn drwy BlueLight Commercial, yn ogystal ag arbedion

mewn meysydd fel ystadau, gweithio ystwyth a gwasanaethau a rennir/gwasanaethau galluogi. Disgwylir i'r broses o sefydlu Bwrdd Effeithlonrwydd mewn Plismona newydd wella'r sylfaen dystiolaeth effeithlonrwydd a nodi cyfleoedd pellach ar gyfer enillion yn y dyfodol.

Yn dilyn proses graffu fanwl a thrafodaethau

ynghlŷn â thybiaethau ariannol, risgiau sy'n parhau i fygwth y blaenoriaethau o ran cymunedau a buddsoddi, cyflwynodd y Comisiynydd ei gynnig praesept ar gyfer 2021-2022 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2025-2026 i Banel Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys ar 5 Chwefror 2020. Roedd y broses hon yn cynnwys nifer o seminarau a chyflwyniadau i'r CHTh, ei dîm, y Cyd-bwyllgor Archwilio, Aelodau'r Panel Heddlu a Throseddau, a staff o Archwilio Cymru.

**Mae hyn, unwaith eto, yn sicrhau MAI
PRAESEPT HEDDLU DYFED-POWYS,
YW'R ISAF YNG NGHYMRU, sef £275.56 o
gymharu â £287.71 yn Ne Cymru, £287.96 yng
Ngwent a £303.91 yng Nogledd Cymru**

**Heddlu Dyfed-Powys sydd wedi bod â'r
CYNNYDD ISAF NAMYN PUMP YM
MHRAESEPT Y DRETH GYNGOR ledled
Cymru a Lloegr ers 2012-2013.**

Cefnogwyd cynnig y CHTh gan y Panel Heddlu a Throseddau, a gododd y praesept cyfartalog ar gyfer eiddo band D wrth £15 i £275.56; cynnydd o 5.76% sy'n codi cyfanswm praesept o £62.307m. Bydd hyn yn rhoi cyfanswm cyllid canolog a lleol o £119.834m, sy'n cynrychioli cynnydd o 6.13% ar lefelau ariannu yn 2020-2021.

Mae Heddlu Dyfed Powys yn parhau i nodi mesurau effeithlonrwydd ac mae ganddo gynllun lleihau costau ar waith, sy'n ceisio manteisio ar fentrau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol gan gynnwys BlueLight Commercial, Cwmni TGCh yr Heddlu a gweithgarwch cydweithio drwy Gymru gyfan. Mae'r cynllun hwn yn tybio y caiff y gweithlu a'r sylfaen costau eu had-drefnu


drwy effeithlonrwydd a chynhyrchiant, ond cydnabyddir y bydd rhaid parhau i ddatblygu hyn i alluogi pennu sefyllfa ariannol tymor canolig gytbwys, gynaliadwy, a ariennir ar gyfer refferniw a chyfalaf gan warchod safon y gwasanaeth a roddir i gymunedau ardal Dyfed Powys.







COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER



☎ 01267 226440

✉ opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

✉ Comisiynydd Heddlu a Throsedd
SCHTh
Blwch Post 99
Llangynnwr
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 2PF

Cysylltu gyda'r Comisiynydd

💻 www.dyfedpowys-pcc.org.uk/en/the-commissioner/contact-me/

📘 Facebook @DPOPCC

🐦 Twitter @DPOPCC